

ECO'R WYDDFA

Rhif 228

TACHWEDD 1996

Pris 30c

YR WYL GERDD DANT

Cynhelir yr Wyl Gerdd Dant eleni yn Stiwdio Barcud, Caernarfon, ar y 9fed o Dachwedd.

Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr hanner canfed Wyl yw Geraint Lloyd Owen. Yn ôl y trysorydd, Gareth Williams, mae'r ymateb ariannol gan yr ardalwyr wedi bod yn galonogol iawn. Mae'r ysgrifennydd, Heulwen O'Grady, wedi derbyn nifer fawr o ffurflenni cystadlu ac mae'n argoeli am Wyl i'w chofio.

Gwerthir tocynnau i'r Wyl ar y diwrnod ac mae'r prif stiwardiaid, Ifor Huws a Gareth Jones, yn erfyn am wirfoddolwyr i stiwardio.

Cofiwch fod nwyddau'r Wyl ar werth — plât arbennig wedi'i gynllunio gan y Prifardd Meirion MacIntyre Huws, is-gadeirydd yr Wyl, am y pris rhesymol o £15.

YR HEDDLU'N YMGYNGHORI

Mae'r heddlu yn bwriadu cynnal nifer o gyfarfodydd ymgynghorol rhwng mis Tachwedd 1996 a Chwefror 1997 ym mhentrefi gwledig dosbarth Eryri.

Dyweddodd yr Arolygwr Lloyd mai diben yr ymweliadau fydd trafod problemau yn ymwneud â'r gymuned leol. Ei obaith yw y byddant yn ddull gwerthfawr o gyfnewid gwybodaeth ac yn foddion cysur i aelodau oeddrannus y gymuned. Bydd cynghorion cyffredinol ynglŷn ag Atal Troseddu ar gael hefyd.

Bwriad yr heddlu yw defnyddio carafan Atal Troseddu Gwynedd ar gyfer yr ymweliadau ac mae'r lleoliadau a'r amseroedd y gellir ymweld â'r garafan yn cael eu nodi isod:

DEINIOLEN

Y tu allan i'r hen orsaf yr heddlu, ddydd Llun, 2 Rhagfyr, 2-4 p.m.

RHIWLAS

Y tu allan i'r hen orsaf yr heddlu, ddydd Llun, 9 Rhagfyr, 2-4 p.m.

LLANRUG

Maes parcio bysiau Arfon, ddydd Llun, 16 Rhagfyr, 2-4 p.m.

DWY WÊN — DWY GAMP



Gwobrwyd y ddwy siriol yma mewn gwahanol ffyrdd yn ddiweddar. Ffion Williams (chwith) a enillodd Gadair Lowri am ganu dan chwech oed yn Eisteddfod Llanrug. Anrhydeddwyd Mrs Gwladys Medwen Jones, Dalar Deg, Llanrug yng nghynhadledd Plaid Cymru, a gynhaliwyd yn Llandudno, am ei gwasanaeth hir a chlodwiw i'r Blaid. Llongyfarchiadau i'r ddwy ar eu camp.



CADEIRIO'R DEON GWLAD

Llongyfarchiadau i Ddeon Gwlad Arfon, y Parchedig Idris Thomas, Trefor ar ennill cadair Eisteddfod Gwaun Gynfi eleni. Roedd 12 wedi ymgeisio am y gadair, a'r dasg oedd cynhyrchu tri gwaith creadigol gwahanol. Ymysg y tri chynnyrch buddugol roedd portread o fywyd egniol Richard Parry, Caernarfon tra wrthi'n casglu arian at achosion da; ac ysgrif bersonol am dri llwybr yn ardal Dinorwig.

Dyma'r eildro i'r Parchedig Idris Thomas ennill cadair Gwaun Gynfi gan iddo ennill yn ôl yn 1991.

Dwyed mai'n ysbeidiol y bydd yn cystadlu er iddo ennill dwy wobr gyntaf yn Eisteddfod Pantyfedwen yn Llanbedr Pont Steffan, ddiwedd Awst eleni. Mae'n golofnydd i bapur ei enwad, sef *Y Llan* ers 1989.

Brodor o Ddinorwig yw Mr Thomas daw yn ôl i'w gynefin yn aml i ymweld â'i fam, Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig.

LLEDDFU PROBLEMAU'R SGWÂR

Bu problemau trafnidiaeth ar sgwâr Llanrug yn bryder i'r trigolion lleol ers blyneddau. Bu sawl dawmain yno dros y blyneddau a bu galw cyson am ryw fath o gynllun i wella'r sefyllfa.

Bellach mae Cyngor Gwynedd wedi llunio cynllun ar gyfer y sgwâr — cynllun a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Ardal.

Bydd y gwelliannau'n canolbwyntio ar addasu'r gornel lle'r oedd y garej yn arfer bod, fel y gall ceir sy'n teithio o Gaernarfon droi'n gynt i gyfeirion Lôn Cawia. Bydd y cynllun hefyd yn gwahanu'r gyffordd i Lôn Cawia oddi wrth Ffordd yr Orsaf ac yn lleihau'r dryswch sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bwriad y Cyngor yw cyflawni'r gwaith o fewn y flwyddyn ariannol bresennol gan anelu i'w gwblhau cyn diwedd y gwanwyn.

ECO'R WYDDFA

Rhif 228
TACHWEDD 1996

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-
y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, TACHWEDD 28
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, TACHWEDD 19
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A	RHIF FFÔN
RHAGFYR	TACHWEDD 28	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Medal Lenyddiaeth Eisteddfod Llanrug (Un o ddau wahanol fath o lenyddiaeth)

gan **DELYTH MEDI HUMPHREYS**

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ymateb i lythyr a gyhoeddwyd yn eich papur ychydig o wythnosau yn ôl.

Yn anffodus, ni allaf ddweud fy mod yn ddarllenwr brwd o'r papur hwn, am y rheswm syml nad wyf i'n gallu siarad na darllen Cymraeg. Ysgrifennais y llythyr hwn yn Saesneg ac wedyn e'i cyfieithwyd i Gymraeg gan fy ngŵr.

Mae'n enedigol o Gymru, yn 'frodor' fel petai, yn wahanol iawn i mi — sydd wedi gorfod gadael fy ngwlad, fy mhobl ac ymgartrefu mewn rhywle na allaf ond ei alw'n ddiffieithdir.

'Diffieithdir' am y rheswm na welaf ddim o'm cwmpas ond anialwch. Anialwch o wynebaw dieithr, rhagfarnllyd, hiliol. Wynebaw perffaith, di-deimlad, gwyn.

Pa obaith sydd gan rhywun, heb ddim yn gyffredin â'r genedl hon i gael ei derbyn i mewn i'r gymdeithas, yn enwedig os yw'r gymdeithas honno yn rhy gyndyn i edrych ymhellach na lliw croen a'r ffaith fod rhai gyda chredoau a duwiau gwahanol i'w haddoli?

Eglurodd fy ngŵr gynnwys un o lythrau a ymddangosodd yn y papur hwn. Ysgrifennodd gwraig ifanc i'r papur, i fynegi pa mor ddiolchgar yr oedd hi i bobl yr ardal hon am ei gwneud hi deimlo mor gartrefol yn eu plith. Dywedodd nad oedd yn hawdd iddi symud i ardal Gymreig, pan na all hithau ond siarad Saesneg, ond oherwydd i'w chymdogion newydd ymestyn eu croeso iddi, roedd yn faich aruthrol oddi ar ei hysgwyddau.

Croesawgar? Lle oedd y bobl hyn pan symudais i i'r cyffiniau yma, hoffwn i wybod. Ni welais yr un drws yn agor i'm croesawu dros eu rhiniog, er y gwelais gryn dipyn yn eu cau yn fy ngwyneb cyn iddynt fynd yn ôl i'w haelwyd ragrithiol.

Rwyf yn ifanc. Ni allaf siarad

Cymraeg ychwaith . . . ond rwy'n rhugl mewn Hindi.

Erbyn hyn, ni welaf hyn fel mantais. Mae'r ffaith mai gwaed Hindu sy'n rhedeg trwy fy ngwythiennau yn hytrach na gwaed Cymreig yn gwneud imi deimlo fel petawn i wedi cael fy mellithio; cosb gan eu duw 'nhw' yw hi. Mae'n rhaid i mi gario'r groes ar fy mhen fy hun, ni welaf neb arall yn cynnig eu cymorth i'm helpu i'w chario.

Ceisai fy ngŵr wneud ei orau i'm cyflwyno i wragedd ei gydweithwyr ond fe glywais fod ganddynt gystadleuaeth gyfrinachol lle mae'n rhaid iddynt geisio darganfod cymaint o enwau a phosib i'm galw. Y wraig gyda'r lleiaf o enwau fyddai'n gorfod fy ngwahodd i'w thy am de — mae'n rhan o'r gosb am golli.

Pam na symudaf yn ôl i'm gwlad fy hun? fe'ch clywaf yn gofyn. Fe ddeuthum yma er mwyn cariad ac felly rwy'n benderfynol o aros yma, er mwyn cariad.

Beth bynnag, hyd yn oed pe bawn i'n dymuno mynd yn ôl gartref — byddai hynny'n amhosib. Rhybuddiodd fy nhad petawn i'n meiddio priodi unrhyw lanc nad oedd o wedi ei drefnu i mi, ni fyddai croeso i mi gartref fyth eto.

Ar y pryd, roedd gen i gymaint o hunan-hyder fel y buaswn yn gallu ail-ymgartrefu mewn gwlad arall yn rhwydd. Wedi'r cwbl, y nawdegau yw hi, nid oes neb, siawns, yn ymddwyn yn afresymol bellach tuag at hiliau eraill yn rhannu'r un ardal â hwy.

Chwalwyd yr hyder hwnnw'n chwilfriw.

Tybiais pan yn blentyn mai unigrywdd oedd aros yn effro yn fy ngwely tra cysgai gweddill fy nheulu; ond beth ydyw mewn gwirionedd yw gwybod na fyddai neb yn galaru petai fy mywyd yn gorffen y funud hon.

Na, dydw i ddim yn bwriadu cymryd y ffordd lwfr allan o'r hen fyd creulon yma, byddai ond yn crechweni yn ôl arna i yn haerllug. Mae gen i rywun arall i feddwl amdano rwan, rhywun y gallaf ei deimlo'n tyfu y tu mewn i mi yn ddyddiol. Rwyf yn aberthu i'r plentyn hwn. Rwyf ond yn gobeithio os y magaf y plentyn yn Gymro pur, fel ei dad, y bydd pobl yn ystyried fy nhrin i yn debycach iddyn nhw, yn hytrach na fel rhywbeth i'w ddilorni a'i sathru.

Nid bwriad y llythyr yma oedd ceisio newid agwedd y darllenwyr tuag ataf, ond fe hoffwn ddweud wrth y ferch ifanc a ysgrifennodd ichwi, i werthfawrogi beth sydd ganddi. Ni chaiff rhai fyth brofi y cariad cymunedol hwnnw sydd mor barod i agor ei ddrysau i rai, ond yn fwy parod fyth i'w gau yn glep yng ngwyneb eraill.

DRAENOG



Digwyddais glywed gŵr go amlwg o Lanrug yn cwyno nad oedd stori gan y Draenog yn y rhifyn diwetha o'r Eco. Mae brawd y gwron yn codi tŷ newydd tua'r Llanberis 'na ac fe aeth draw i helpu i baentio'r tŷ. Roedd isio rhoi ail gôt o baent i'r cyntedd, y grisai, a'r landin. 'Ho, wy'n gallu paentio,' meddai. Bu wrthi'n galed ac fe wnaeth joban reit dda o waith. OND . . . doedd hi'n biti iddo ddefnyddio'r paent anghywir a bod rhywun arall wedi gorfod ail-wneud y cwbl ar ei ôl!

Beth am ddod i gystadlu i

EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

Neu beth am ddod
i fwynhau'r wledd yn
YSGOL DYFFRYN OGWEN

Sadwrn, Tachwedd 16, 1996
am 10.30 a 6.00 o'r gloch

Arddangosfa Celf a Chrefft
a lluniaeth ysgafn
yn ffreutur yr Ysgol

Am fwy o fanylion ffoniwch
(01248) 600423

Emyr Jones PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513



I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

CADEIRIO




Goronwy Jones yn cyflwyno'r fainc hardd i John a Catherine Owen, Penrhyn Bach gynt.

Cafwyd noson hamddenol ac adloniadol yng Nghapel y Cysegr. Fel 'Noson Goffi' yr hysbysebwyd y noson ond roedd pwrpas teilwng iawn iddi, sef anrhegu un o flaenoriaid y capel, John Owen, Penrhyn Bach gynt, ond erbyn hyn Erw Wen, Llanrug. Collodd John ei olwg flynyddoedd yn ôl ac mae'n

weithiwr diflino dros achos y deillion. Mae'n ddygn iawn yn cynhyrchu tapiau sain ar gyfer y deillion ac fe recordir y deunydd yn ei gartref gyda John yn gynhyrchydd, peiriannydd a golygydd. Mae llawer o bobl yr ardal yn gwerthfawrogi'r cyfle a gânt o gyfrannu i'r tapiau trwy ddarllen y papurau bro a'r lleol i'r gwrandawyr. Bydd John hefyd yn ceisio recordio pytaiau o gyngherddau neu gymanfaoedd.

Yn abwyd i'w ddenu i'r Cysegr y noson honno oedd i recordio pedwarawd pres o blith aelodau Seindorf Porthaethwy. Gyda Wyn Williams, yr arweinydd (corn) roedd Alex Briddain (euphonium), Chris Williams a Dewi Griffith (cornet). Yn eu cwmni cawsom daith gerddorol o gwmpas Ewrop a thros yr Iwerydd i



Chris Williams, Alex Briddain, Wyn Williams a Dewi Griffith o Seindorf Porthaethwy a fu'n perfformio yn ystod y noson.

America cyn dychwelyd yn ôl at Myfanwy yng Nghymru. Roedd yn berfformiad disgybledig gan y pedwar a'u gwên yn adlewyrchu eu gwir foddhad o ymdrin yr offerynnau a'r gerddoriaeth.

Llywydd y noson oedd Siencyn Griffiths, ysgrifennydd y capel. Wrth ddiolch i'r pedwar soniodd am eu hymroddiad a'u parodrwydd i berfformio ac ymarfer.

Trosglwyddodd y llywydd yr awenau i Goronwy Jones i wneud y cyflwyniad ar ran swyddogion y capel. Yr oedd John a Goronwy wedi eu hethol yn flaenoriaid gyd'u gilydd yn y Cysegr yn 1963, er fod John wedi bod yn flaenor yn y Glascoed cyn hynny. Ordeiniwyd y ddau yng Nghapel Uchaf, Clynog. Cyfeiriodd Goronwy yn ei ffordd ddihafl am ambell gyngerdd a chymanfa gan gyfeirio at ddawn John ar y ffidil, ac wrth ganu. Cyfeiriodd hefyd at gyfraniad John fel trysorydd, ysgrifennydd ac athro Ysgol Sul yn y Cysegr. Cyfrannodd i'r Achos hefyd am flynyddoedd drwy ei waith fel argraffwr yng ngwasg Y Goleuad.

Yna fe wnaed y cyflwyniad, sef mainc hardd, gyda digon o le i John a Catherine gydeistedd yn heulwen Erw Wen.

Soniodd y Parchg W. R. Williams hefyd am gyfraniad John a'i allu i 'weld' mewn llawer cyfeiriad. Wrth ymateb diolchodd John am flynyddoedd o gwmniac ac am y rhodd annisgwyl yr oedd wedi'i derbyn. Yn amlwg mae'r Cysegr wedi bod yn gartref iddo.

Wedi'r cyfarfod cafodd y gynulleidfa deilwng luniaeth ysgafn wedi'i darparu gan wragedd y blaenoriaid.

Yn briodol ddigon wythnos cyn yr Ŵyl Ddiolchgarwch cafwyd cyfle i ddweud 'diolch' wrth un a roddodd flynyddoedd o wasanaeth i'r Achos yn y Cysegr.

JOHN OWEN

Yr Un a roes arweiniad — a'i dywys
I dawel ymroddiad;
Elwa'n gry', o dŷ ei Dad
O'r llog, tu cefn i'r llygad.

RICHARD LLOYD JONES

CLWB ERYRI

Yng nghyfarfod cyntaf tymor 1996-97, yng Ngwesty'r Victoria, cyflwynwyd y siaradwr, J. Norman Davies, Bontnewydd, Llywydd y Clwb, gan yr Is-lywydd Cledwyn Pritchard Jones, Llanberis. Mwynhawyd ffrwyth ymchwil y siaradwr i'r flwyddyn 1955, a chanolbwyntiodd ar rai digwyddiadau arwyddocaol, nodi prisiau nwyddau'r dydd ac arlwy'r tri sinema oedd yn ffynnu yn y dref ar y pryd. Prif ddigwyddiad yr *annus mirabilis* ar wahân i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwlheli a sefydlu ein Clwb dihafl, oedd uno un o'i sefydlwyr (y Clwb nid yr Eisteddfod!) a chyn-ysgrifennydd y cyfryw, sef Rol Williams â Gwenlli Williams mewn glân briodas. Cafwyd trafodaeth bwrpasol-berthnasol o'r llawr, a diolchwyd i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson gan y crug, ond huawdl serch hynny, Arwel Jones. Ar nodyn dwysach, trist oedd gorfod derbyn ymddiswyddiad Emyr Jones, un o gyfranwyr mwyaf triw a graenus y Clwb, a gŵr unigryw a bontiai ddiwylliant y chwarel a'r academi o fewn ei berson. Gedy fwllch nas gellir yn hawdd ei lenwi.

Clôwyd y noson gan y Llywydd a chyhoeddwyd bod y cyfarfod nesaf ar nos Wener, 1 Tachwedd, am 7.30 o'r gloch, yn Ystafell Dinorwig Gwesty'r Victoria. Bydd y noson yng ngofal Rol Williams gyda John Emlyn Hughes, Deiniolen, yn y gadair.

IOLO HUWS-ROBERTS

DRAENOG



Rwy'n cydymdeimlo â'r athro o Lanrug sy wedi laru ar faw cŵn yn y cae chwarae ac roedd o'n benderfynol o roi stop ar y busnas. Er 'i fod o cyn daled â centre-half roedd o'n ddigon pryderus o wynebu ci a'i feistr a bu am ddyddiau'n ceisio magu plwc i fynd i'r cae i aros am y troseddwy'r. O'r diwedd, draw â fo i'r cae. Gyda hyn dyna wraig yn dod am dro efo'i chi — a'r peth cyntaf wnaeth y ci oedd baeddu'r cae. Dyma'r athro'n b-r-a-s-g-a-m-u ar draws y cae gan fwriadu rhoi llond ceg go iawn i'r wraig . . . a dyna honno'n tynnu bag plastig a rhaw fechan o'i bag a chodi'r baw yn daclus . . . gan adael yr athro druan yn cicio'i sodlau ar y cae!

Ymateb i'r Llun

Cafwyd ymateb gan Dilys Jones (Dilys Wyn Roberts gynt) i'r cais am wybodaeth ynglŷn â llun o ddosbarth ysgol a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf. Anfonwyd y llun gwreiddiol gan Mr Meirion Thomas, Pentre Berw, gynt o 61 Maes Padarn. Tynnwyd y llun yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis oddeutu 1948 ac mae Mrs Jones yn enwi'r plant fel a ganlyn: *Rhes gefn (o'r chwith i'r dde)*: David Roberts, Esgeiriau; Brian Jones; Heulwen Morgan; Ifan Wyn Davies; Tom Peris; Vivian Hughes, Ysbyty'r Chwarel; Meirion Thomas. Donald (Griffith?); Dilys Wyn Roberts; Elwyn Griffith; y diweddar Raymond Jones.

Rhes ganol: Y diweddar Kenneth Owen; John Rhys Owen; Arfon (?); Eurwyn Eilian Roberts; Nancy Owen; Walter Glyn Roberts; Derek Williams; Alan Jones; Leonard Jones.

Rhes flaen: Iona Griffith; Doreen (Hughes?); Buddug Owen; Doreen (?); Olwen Rees Evans; Rhian Owen; Brenda Davies; Joyce Ffoulkes; Helen Griffiths; Rona Peris Hughes; Rhiannon Wyn Jones; Eunice Roberts; Margaret (?).

Yn eistedd: Philip Jones a Gwilym Wyn Williams.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Mewn cyfarfyddiad a gynhaliwyd rhwng swyddogion Tim Plismona Cymunedol Seiont ac aelodau Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn ddiweddar, awgrymwyd i'r Heddlu mai da o beth fyddai ystyried cynnal 'surgeries' mewn gwahanol bentrefi fel y gall y cyhoedd drafod problemau sydd yn eu poeni.

Cafwyd gwybodaeth fod yr Heddlu wedi cydsynio â'r cais a bydd Carafan Atal Troseddu Gwynedd yn ymweld â nifer o ardaloedd er mwyn rhoi cyfle i aelodau'r gymuned drafod eu problemau, a hefyd i dderbyn cynghorion cyffredinol ynglŷn ag Atal Troseddu. Mae yna feirniadu cyson wedi bod ar yr Heddlu yn ddiweddar a dyma gyfle

i'r cyhoedd fanteisio ar y gwasanaeth hwn i ddatgan eu teimladau.

Bydd y garafan yn ymweld â: **DEINIOLEN**: y tu allan i'r hen Orsaf Heddlu, dydd Llun, 2 Rhagfyr, 2-4 p.m.

RHIWLAS: y tu allan i'r hen Orsaf Heddlu, dydd Llun, 9 Rhagfyr, 2-4 p.m.

LLANRUG: maes parcio bysiau Arfon, dydd Llun, 16 Rhagfyr, 2-4 p.m.

Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn ddiolchgar iawn i Dim Plismona Cymunedol Seiont am eu parodrwydd i gydweithredu, gan hyderu y bydd yr arbrawf yn llwyddiant.

CHWILOTA TERMAU CHWAREL



Roeddwn i'n disgwyl llawer iawn mwy o ymateb i'r cais am eglurhad am dermau'r chwarel am wythiennau o lechi yn yr ardal, ond dau yn unig a gysylltodd â mi (a dim ond un ohonynt yn gyn-chwarelwr!) Sôn yr oeddwn am dermau'r chwarelwyr am y gwahanol wythiennau o'r garreg las — Y Coch Calad, Y Llwydion, Yr Hen Las, Y C'ledion Trydydd, ac yn y blaen; a bod rhai o'r enwau'n egluro'u hunain.


Ffoniodd Mr Ifan W. Jones o Benisarwaun gynted ag yr oedd yr Eco allan o'r wasg. Bu'n gweithio ym mhonc Penrhynbach yn Chwarel Dinorwig, ac yno roedd y lechfaen yn galetach nac mewn rhannau eraill o'r chwarel. Roedd carreg salach na'r cyffredin yn cael ei galw'n 'drydydd'; roedd fel arfer yn llawn o 'grampia', sef ceinciau, ac felly'n anos i'w holli. Dywed Mr Jones fod cerrig o rannau eraill o'r chwarel yn cael eu dosbarthu i gyntaf, ail a thrydydd hefydd, yn ôl eu safon.

Ar y stryd yn Llanberis ryw fore Sadwrn y cefais gadarnhad o'r wybodaeth uchod. Mae'r cyfaill o Lanberis am aros yn ddi-enw, ond cefais fenthg dwy garden ganddo a gyhoeddwyd gan Chwarel Dinorwig yn nodi'r gwahanol lechi a'u prisiau. Mae copïau ohonynt wedi eu hatgynhyrchu ar y dudalen hon. Sylwch fod Swyddfa Chwarel Dinorwig yn y Felinheli yn ddigon pwysig i gael teliffon yn y dyddiau cynnar — y rhif yw Bangor 22.

Sylwer fod y prisiau yn cael eu nodi mewn dau ddull gwahanol — fesul pwysau a fesul nifer. Prin iawn yw'r Gymraeg ar y cardiau — ond yn naturiol, dramor y gwerthid llawer o'r llechi, a Saesneg oedd iaith busnes. Mae'r garden gyntaf yn nodi 25 maint gwahanol o lechi oedd ar werth, a'r rheini wedi eu dosbarthu yn 'best', 'seconds' a 'thirds'. Fesul cant roedd y rhain

yn cael eu prisio. Mae'r ail garden yn rhoi gwybodaeth fwy manwl, ond ugain yn unig o faint gwahanol oedd ar gael. Mae'r rhain eto wedi eu dosbarthu yn 'first quality', 'second quality', 'third quality new quarry and mottled' a 'rhirds green and wrinkled'. Sylwer fel mae'r rhain yn cael eu gwerthu yn ôl yr arwynebedd a orchuddid fesul llathen sgwâr a phwysau fesul 1000 o lechi. Mae'r 'thirds' yn llawer trymach, sy'n cadarnhau yr hyn a ddywedodd Mr Jones, sef eu bod yn anos eu holli, ac felly'n llechi mwy trwchus na rhai'r safon gorau.

Mae'r trydydd tabl yn enwi'r gwahanol lechi ac yn rhoi



These Quarries cover about 700 ACRES, and produce the
WORLD-FAMED
VELINHELI OR DINORWIC
ROOFING SLATES.

All Communications to be Addressed:
O. T. WILLIAMS,
GENERAL MANAGER,
PORT DINORWIC, N. WALES.

Qualities of Slates made at the "Dinorwig" or "Velinheli" Quarries.

NAME OF SLATE.	DESCRIPTION OF SLATE.	AVERAGE THICKNESS TO THE FOOT.
BEST OLD QUARRY ...	Slate of a blueish tint	About 70 Slates.
BEST RED ...	" reddish tint	" 79 "
SECOND RED ...	" " "	" 45 "
BEST NEW QUARRY ...	" grey tint	" 62 "
SECOND NEW QUARRY ...	" " "	" 42 "
THIRD NEW QUARRY ...	" " "	" 26 "
BEST GREEN & WRINKLED ...	" blueish tint slightly spotted	" 70 "
SECOND GREEN & WRINKLED ...	" " "	" 40 "
THIRD GREEN & WRINKLED ...	" " "	" 28 "
BEST GREEN ...	" sea green tint	" 62 "
SECOND GREEN ...	" " "	" 42 "
THIRD GREEN ...	" " "	" 28 "
BEST MOTTLED ...	" grey tint slightly spotted	" 62 "
SECOND MOTTLED ...	" " "	" 42 "
THIRD MOTTLED ...	" " "	" 28 "
BEST TON SLATES ...	Of various sizes from 26" long to 36"	" 30 sq. yds. per ton.
SECOND TON SLATES ...	" " "	" 24/25 "
THIRD TON SLATES ...	" " "	" 18/19 "

NOTE.—To avoid substitution of a cheaper and inferior quality slate, it is important that the specification of the slate required should be clearly worded as described above.
For Example—If Best New Quarry Slates are required, they should be described as 'Best New Quarry Dinorwig Slates.'

disgrifiad ohonynt. Gallwn ddyfalu felly mai'r 'Best Old Quarry' yw'r 'Hen Las' ac mai llechi'r 'New Quarry' yw'r 'Llwydion'. Ond p'r un oedd yr 'hen' chwarel a'r chwarel 'newydd'? Wnâi ddim ceisio dyfalu rhagor gan fod arbenigwyr llawer mwy cymwys na mi yn yr ardal i draethu am y mathau gwahanol o lechi. Ond anfonwch air er mwyn rhannu'r wybodaeth â gweddill y darllenwyr!

MYNWENT MACPELA

Dro'n ôl soniais am fynwentydd Caeathro a Llanddeiniolen. Deuthum hefyd ar draws cofnod diddorol ynglŷn â Mynwent Macpela. Mae'n ymddangos fod capel wedi'i adeiladu ar dir y fynwent hon yn 1844, ond iddo gael ei ddymchwel yn ystod blynyddoedd 1896-97. Dyna'r cyfan o wybodaeth sydd gen i amdano. Ceir y cofnod amdano mewn cân saith pennill o eiddo D. Jones, Disgwylfa yn 1898. (Tybed a'i Dewi Peris oedd yr awdur?) Testun y gân yw 'Macpela, Capel Mynwent Clwt y Bont, Arfon'. Dyma un pennill, sy'n rhoi syniad o naws y gweddill:

Macpela, dy furiau i'w sail a wasgarwyd,
Dy lawr a gyfodwyd i fyny bob darn;
Rhoddwyd tomen o bridd ar y fan gysegredig
Lle traethwyd mewn dagrau am angau a barn;
Dy feini a chwalwyd ar hyd y gymdogaeth,
A chariwyd dy lwch ar adennydd y gwynt;

Ond pery dy enw tra pery'r ysbrydoedd

A welsant dy lŵr rhwng dy furiau di gynt.

Byddai'n ddiddorol cael mwy o wybodaeth am y capel hwn — beth oedd ei bwrpas, ac a oedd yn eiddo i enwad arbennig, yntau i'r ardal yn gyffredinol.

SYCH NEU WLYB?

Ddechrau mis Tachwedd eleni bydd y bleidlais olaf yng Ngwynedd i benderfynu a ddylid caniatáu tafarndai i agor ar y Suliau. Wnâi ddim dechrau dadlau'r achosion o blaid nac yn erbyn y testun hwn — dim ond nodi mai mudiad gweddol ifanc yw'r mudiad dirwestol yng Nghymru, ac mai yn yr ardal hon y dechreuodd o ddi. Sefydlwyd Cymdeithas Gymedroldeb yn Ninorwig yn 1834, ac yna yn Llanrug. Ar 27 Gorffennaf 1836 sefydlwyd Cymdeithas Ddirwestol yn Llanrug, ac y mae enwau'r aelodau cynnar rheini ar gael. Roedd yr aelodau yn addunedu ymwrthod â diodydd meddwol am gyfnodau o chwe mis neu flwyddyn ar y tro. Dyma gopi o'r adduned yn llawn: 'Yr ydym ni y rhai y mae ein henwau yma, yn addunedu yn syml i lwyrymwrthod â phob math ar ddiodydd meddwol oddieithr fel moddion meddygol neu yn sacramentaidd.' Roedd angeng cynnwys y cymal olaf oherwydd mai gwin alcoholaidd a ddefnyddid yn sacramentau'r capeli yn y cyfnod hwnnw.

Dafydd Hughes, gof Llanrug, yw'r enw cyntaf ar y gofrestr. Addunedodd i lwyrymwrthod hyd ddiwedd 1836. Roedd Rowland Jones, Tyddyn Alice, yn addunedu am flwyddyn gyfan, a dyna'r ddau gyfnod sydd wrth enwau pawb bron yn y gofrestr — ar wahân i Thomas Williams, y Saer. Doedd hwn ddim am ddilyn y gweddill mae'n amlwg, oherwydd wrth ochr ei enw ceir y frawddeg: 'o Orffennaf 27ain 1836 hyd nes cyfnewiduo ei farn'! 'Sgwn i am faint y cadwodd ei adduned? Anfonwch air, llun neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515).

Cefnogwch ein Hysbysebwy'r

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**
(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

'Un funud fach ...'

BETH AM Y BOCSUS?

Roedd hi'n tywallt y glaw. Ar ochr y lôn roedd gwraig yn mochel dan ei ambarél. Wrth fy ngweld yn dod i lawr y lôn yn y car, chwifiodd yr ambarél i dynnu fy sylw. Stopiais, ac meddai, 'Beth am y bocsus, Mr Pritchard?' A hithau'n fis Hydref gwyddwn yn iawn mai cyfeirio yr oedd at yr anrhegion Nadolig a anfonir trwy Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Ydi, mae'n amser paratoi'r bocsus eto, ac mor braf yw gweld bod yr arferiad wedi dod yn rhan naturiol o baratodau rhai pobl at ddathlu Gŵyl y Geni.

Y mae rhai o eglwysy ac ysgolion y fro yn cefnogi'r apêl eleni eto. Os am gefnogi'r apêl bydd amoch angen bocs esgidiau gwag, a gallwch roi pob math o anrhegion bychan ynddo ar gyfer plentyn neu berson ifanc; pethau fel tegannau bychain, pensiliau a phapur sgwennu, llyfrau lluniau, past dannedd a deunydd ymolchi, siocled a melysion, menyg a chap. O gofio y bydd eich bocs yn cael ei roi yn anrheg i un plentyn, paratowch y bocs gyda bachgen neu eneth o oedran arbennig mewn cof.

Bydd y bocsus yn cael eu hanfon i blant mewn gwledydd fel Croatia, Bosnia, Serbia, Romania, a rhai o wledydd eraill dwyrain Ewrop. Hon fydd y chweched flwyddyn i Ymgyrch Plentyn y Nadolig (*Operation Christmas Child*) anfon yr anrhegion hyn. Cychwynnwyd yr elusen gan Gristnogion yn ardal Wrecsam, ond erbyn hyn mae wedi dod yn rhan o elusen fwy, Pwrs y Samariad (*Samaritan Purse*). Mae miloedd o blant yn derbyn anrheg bob Nadolig. Y llynedd anfonwyd dros 280,000 bocs o wledydd Prydain.

Gellwch lapio'r bocs, ond peidiwch â'i selio. Rhowch fand lastig am y bocs i ddal y caead arno. Mae'r elusen yn gofyn hefyd am rodd o £2 gyda phob bocs tuag at gostau cludo'r bocsus dramor. Os na wyddoch am rywun sy'n casglu'r bocsus yn eich pentref mae croeso i chi gysylltu â mi i gael label arbennig i'w osod arno. Bydd angen i'r bocsus ddod i law erbyn dydd Gwener, Tachwedd 15.

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

OSMOND SHAW
DEINIOLLEN

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Gwellhad Buan: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Barbara Owen, Bryn Hyfryd, ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun, Hydref 7. Agorwyd y cyfarfod gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs E. Jones a Mrs D. Jones. Trafodwyd rhai materion. Y mae tâl aelodaeth yn £6.50 y flwyddyn yma. Y mae dyddiaduron a chalendrau am 1997 wedi dod i law ac ar werth gan Mrs Ransom. Y wraig wadd oedd Mrs Hefina Evans a chafwyd sgwrs ddiddorol am ddwy hen aelod ganddi. Yn gofalu am y baned roedd Mrs Joan Williams a Mrs V. Jones a diolchwyd iddynt ac i Mrs Evans gan Mrs E. Taylor. Rhoddwyd y raffl gan Mrs J. Williams ac fe'i henillwyd gan Karen Birbeck. Terfynwyd gyda gweddi. Bydd y cyfarfod nesaf ar 4 Tachwedd.

Eglwys Sant Gabriel: Cynhaliwyd yr Wyl Ddiolchgarwch ar 13 a 14 Hydref. Fore Sul gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan ein Rheithor, y Parchg Philip Hughes a'r organydd yn y gwasanaeth oedd Mr Gareth Jones, Llanberis, a diolchir iddo am ei wasanaeth.

Nos Lun bu Gosber a'r pregethwr gwadd oedd y Parchg Andrew Jones, Llanbedrog. Diolchir i'r ddwy a ddarllenodd y llithoedd yn y ddau wasanaeth, sef Mrs Hilda Orritt a Mrs Gwyneth Roberts.



Priodas: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Vaughan Llywelyn Hughes, 'Rallt Deg a Carys Dwyfor Williams, Llaneilian, Amlwch ar achlysur eu priodas yng Nghapel Salem, Amlwch ar Awst 16.

Noson Goffi: Cynhaliwyd Noson Goffi yn yr Ysgol Gymuned nos Fercher, Hydref 16, a'r elw tuag at Eglwys Sant Gabriel. Cafwyd noson lwyddiannus dros ben a diolchir yn fawr iawn i bawb am droi allan.

Dymuna'r Rheithor, y Parchg Philip Hughes a'r Curad, y Parchg Emyr Owen, a'r Wardeiniaid ddiolch i bawb am addurno'r Eglwys ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a'r blodau hardd yn ystod yr Wyl Ddiolchgarwch.

Dymuna aelodau'r Eglwys wellhad buan iawn i Mr Dafydd Roberts sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Enillwyr y raffl fawr oedd: 1, Mrs Dilys Phillips, Llanberis; 2, Rhys

Williams, Grug Wen, Llanrug; 3, Anwen Davies, Alexandra House; 4, Mr Hughes, 30 Glanffynnon, Llanrug; 5, Ted, 68 Maes Gwynedd, Caernarfon; 6, Gwyndaf Williams, Pen-y-groes; 7, A. Langford, 50 Tyddyn Tô, Porthaethwy; 8, Dafydd Hughes, Garage, Cwm-y-glo; 9, Sheila Williams, Glyn Afon, Llanrug; 10, Dafydd A. Hughes, 16 Dôl Afon; 11, G. Garter, Llwyn Onn, Cwm-y-glo; 12, Gwenifer Roberts, Ysgol Cwm-y-glo; 13, Kyle, Taccis Ogwen, Bethesda; 14, Mrs Margaret Williams, Goleufryn; 15, Mrs Sylvia Williams, Bwlch; 16, Mr Llew Hughes, Hyfrydle; 17, Mrs H. Williams, 5 Glan Moelyn, Llanrug; 18, Mrs Bedlow, Elidir View, Ffordd Tŷ Du, Llanberis; 19, Cenwyn Jones, 20 Tal-y-bont, Llanrug.

Enillwyr y raffl ar wahân oedd leuan Rowland, Tal Afon, Cwm-y-glo; Anest Jones, Glan-y-don, Cwm-y-glo; Ann Jones, Nant Peris.

Newyddion o'r Ysgol: Unwaith eto rydym yn croesawu plentyn newydd

i'r ysgol. Daeth Sarah Bl. 6 atom o Ysgol Tal-y-sarn. Gobeithio y bydd hi'n hapus iawn gyda ni. Yr un yw'n dymuniadau gorau i Miss Rhian Evans o Goleg Menai sy'n dilyn cwrs NNEB ac yn treulio cyfnodau yn nosbarth y Babanod.

Etholwyd dau gynrychiolydd rhieni ar Fwrdd Llywodraethol yr ysgol yn ystod y mis diwethaf. Croesawn Mrs Avril Jones a Mr Nigel Williams ynghyd â Mr Alan Jones fel aelod cyfetholedig am y bedair mlynedd nesaf. Carem ddiolch yn ddiffuant iawn i Mrs Dorothy Jones am ei gwasanaeth yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

Aeth gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Medi i Mrs Diana Pritchard, Llanberis, a Mrs Linda Parry, Cwm-y-glo. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt.

I gloi'r hanner tymor cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol. Braf oedd cael cwmni cymaint o rieni, teuluoedd a ffrindiau yn cydaddoli gyda'r plant. Carem ddiolch i'r Parchg Gwynfor Williams a'i briod am ymuno gyda ni ac am eiriau pwrpasol a charedig Mr Williams i'r plant. Eleni byddwn yn cyflwyno'r casgliad i fudiad Oxfam. Diolch o galon i bawb am eu haelioni.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

Bedydd: Yng Nghapel M.C. Dinorwig ar brynhawn Sul, 22 Medi, cafwyd gwasanaeth arbennig pryd y bedyddiwyd Mererid Elen, merch fach Colin a Shirley Humphreys, Gwêl y Wyddfa. Yn gweinyddu roedd oed o'r teulu, sef y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon.

Y Gymdeithas Undebol: Erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn bydd noson agoriadol tymor newydd y Gymdeithas wedi'i chynnal ar nos lau, 24 Hydref, yng nghwmni doniau eisteddfodol o'r Waunfawr. Eisoes mae rhaglen y Gymdeithas dros fisoedd y gaeaf ar gael ac mae nosweithiau difyr wedi eu trefnu ar ein cyfer. Disgwylir Mr Norman Williams o Frynrefail i roi sgwrs inni nos lau, 7 Tachwedd; ac yna 7 Tachwedd bydd Mr Alun Hughes o'r Fachwen yn bresennol i ddangos sleidiau ar anturiaethau canwio a dringo. Dylai'r ddwy noson fod yn rhai difyr. Mae'r rhaglen ar werth am bunt a bydd pob noson yn dechrau am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Bydd

croeso arbennig i aelodau newydd. **Llongyfarchiadau** i Llew a Glenys Jones, 4 Bro Elidir, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach, Iola Bryn, i Steven a Glenys Jones a chwaer fach i Haf o Llwydfryn, Ffordd Marchlyn, Deiniolen, ar 17 Medi. Llongyfarchiadau mawr iddynt fel teulu.

Cof Da: Collodd Eglwys Crist, Llan-dinorwig un o'u hoelion wyth gyda marwolaeth Hughie Jones, 6 Rhos Faenol, Deiniolen yn ddiweddar. Cofiwch amdano yn arbennig yn Ninorwig am ei gefnogaeth i Eisteddfod Dinorwig. Byddai yn cystadlu'n frwd ar y cystadlaethau limrigau a'r llinell goll a chafodd gryn lwyddiant. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth.

Gwellhad Buan i John Peris Roberts, 11 Maes Eilian sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Gobeithio y byddwch gartref yn fuan. Dymuniadau da i bawb arall sydd ddim yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd.

Bistro
LLANBERIS
Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am **Fwffe Enwog Nerys** (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion **Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro** Nos Wener olaf bob mis

ARFERION CEFN GWLAD (Pan oedd cefn iddi) gan Y GWALCH

Pan fo hen gyfeillion yn ymadael mae dyn ar ei waethaf yn cael ei dynnu i gofio hanesion a phrofiadau yn gysylltiedig â nhw. Digwyddiad a ddaeth a'r math yma o atgofion i mi yn ddiweddar oedd achlysur priddo Mrs Gwyneth Land, gynt o Gae Hob, Llanddeiniolen, ym mynwent Pentir.

Bu hi a'i gŵr, Arthur Land, yn gymdogion caredig i ni ar draws y weirglodd, mewn cyfnod pan yr oedd lliain gwyn yn crogi o ffenest llofft, o fawr arwyddocad.

Roeddni ni yr adeg honno yn y gongl yma o'r byd yn denantiaid i Syr Michael Duff, Y Faenol, ac yr oeddni nhw yn dal i fagu ffesants yr adeg honno i'w saethu ar ddiwedd y tymor. Byddai cipar Caer Mynydd yn dod o gylch y ffermydd i brynu ieir gori am hanner coron i roi wyau danynt yng nghyfar y Rhydau. Yno hefyd yr oedd yna weiran fel lein ddillad, ac arni crogai pob math o greaduriaid a oedd yn ysglyfaethu ar yr adar rheini, o bïod a brain i fronwennod. O ganlyniad roedd yna doreth o adar cerdd.

Fy nifyrrwch i yr adeg honno — yn lle cymryd cyffuriau a chwilio am hen bobol i'w colbio — oedd potsio ffesants hefo gwn yn y nos oddiar y brigau, yn enwedig ar loergan: *'Tis my delight on a shining night,'* a choed Blaen Cae oedd fy hoff dir hela. Rhaid cofio nad oedd rheolau'r stâd, mewn perthynas i'r math yna o adloniant, wedi eu llwyr ddiddymu yr adeg honno, i'r mesur y byddai tenant yn cael bygwth ei droi o'i gartra am botsio, fel y cafodd fy nhaid y dewis yn gynharach; o anfon ei fab o'r wlad neu fynd.

Beth bynnag, roeddwn yn y coed rhyw noson ac heb gael fawr o hwyl. Tarawodd yn fy mhen i fynd i Graianfryn i chwilio am fy nghyfaill, y diweddar Gwylm Owen Jones, ac oddi yno aethom i Frynrefail i Dŷ Glas (cwt Joss Rhydau Duon) i chwarae biliards, ac ar ôl ymgolli yn y chwarae aeth yn hynod o hwyr: *'Ar ôl naw daw deg — diddan/ I aros deuddeg/ Os 'rych chi'n chwennych i aros yn hwy/ Yn un daw hi'n union deg.'*

Erbyn i ni gychwyn am adra roedd yna geunan o eira wedi disgyn, ac ar ôl i mi gael y gwn o Graianfryn roedd hi wedi hanner nos. Dydw i ddim yn cofio beth oedd gan rhieni yr hogyn ei hun i'w ddweud, ond doedd o yn

sicr ddim yn galonnog.

Ar ôl imi fynd heibio i gwr y coed ac allan ar y corsdir, dechreuodd fwrw eira wedyn, ac yna gwelais dewin o olau yn y pellter. Gwyddwn nad oedd yn 'gannwyl corff' yr adeg honno o'r flwyddyn: y fflamau bach aflonydd rheini fyddai yn neidio hyd y corsydd ar nosweithiau trymaidd o haf pan oedd y *methane* o'r mawn yn cynnau, ond yr oedd yn dod yn nes ataf. Pan sylweddolais mai rhywun yn dod yn union amdanaf yn cario lantarn beudy oedd yno, ciliais o'r neilltu am funud, nes i mi ganfod mai fy mam ac Arthur Land oedd yno yn chwilio amdanaf, ac wrth gwrs wnes i ddim sylweddoli hyd y munud hwnnw cymaint o bryder roedd fy mddygiad di-feddwl wedi ei achosi. Mae'n siŵr fod eu gollyngdod o fy ngweld yn gyfan wedi trechu eu hawydd i'm damio.

Wedi cyrraedd y tŷ roedd fy nhad, nad oedd mewn cyflwr yr adeg honno i fynd allan ar y fath dywydd, yn llawn mor falch o'm gweld. Roedd yna gymaint o sôn yr adeg honno am bobl yn cael damweiniau wrth fynd dros gloddiau hefo gwn llwythog. Ond mynnodd i mi fynd y munud hwnnw i Gae Hob i ymddiheuro i Gwyneth am achosi y fath drafferthion dianghenraid, ac i addo trio callio — ond mae hi wedi bod yn frwydr.

Roeddni ni wedi ein tynghedu rhywsut i gael profiadau ynglŷn â Chae Hob yn anad lle arall, a hynny cyn y cyfnod hwnnw; pan oedd Tom Wmffras a'i wraig yn trio yno hefo'i dad a'i thaid hithau; y ddau yn eistedd yng nghil y ddau bentan yn cystadlu am boeri sug baco i'r tân.

Fyddai o ddim yn beth anghyffredin i rywun ddod i'r cwt bach gefn nos a thafu graian at y ffenest, gan weiddi, 'Josaph, fedrwrch chi, ddim dŵad acw.' Rhyw anhwylder ar anifail neu ddyn. Lawer gwaith bu fy nhad ar ei draed nos hefo cleifion y Waen Winau a'r ffermydd, ac wedi iddi ddod i'r pen, byddai yn cynorthwyo Huw Preis

Saer i'w rhoi yn eu cistiau a threfnu eu angladdau a'u cludo a'u gollwng i lawr.

Rwy'n ei gofio unwaith yn mynd at deulu rhyw gymdages ifanc a oedd wedi gwneud amdani ei hun yn y tŷ-llaeth un ben bora hefo gwn hela.

Rhyw noson farugog ddiwedd y flwyddyn, pwy ddaeth yn yr oriau mân i weiddi, ond Tom Cae Hob, 'Mae'r hen ddyn acw wedi mynd drwy'r llofft,' medda fo fel'na. Ac ar hynny o wybodaeth, yr oeddni ni'n meddwl fod y distia wedi rhoi a bod yr hen fachgen wedi mynd i lawr ar ei ben i'r parlwr, ac ar hynny bu'n rhaid i ni fodloni nes y daeth fy nhad yn ei ôl.

Mi faswn i'n meddwl fod yr hen William Wmffras, oedd dros oed yr addewid yr adeg honno, fel finna erbyn hyn, ac yn tueddu i fod yn ffwdrus, wedi neidio i lawr o ffenest y llofft, ac wedi diflannu yn ei drôn ac yn nhraed ei sanna.

Wrth gwrs doedd yna fawr allai neb ei wneud nes iddi ddyddio, ond ar y fath noson doedd yna neb fuasai yn rhoi ceiniog ledar am ei fywyd o ar y corsydd, a thrwy'r bora wedyn roedd yna amryw o ddynion a'r cipar yn dyfal chwilio y tir a'r ffosydd mawn. Pe bai o wedi mynd i un o'r tonnenydd, welai neb byth mohono.

Ganol y bore fodd bynnag gwelwyd rhyw ddyn yn dod ar hyd un o lwybrau'r gors am y bompran sydd yn croesi'r ffos derfyn. Roedd yno lechfaen drwchus fel caead cist mynwent ar draws yr adeg honno, cyn iddi gael ei dryllio — yn ddamweiniol. Tebyg ydi i ryw grwydryn gael bagliad a syrthio ar ei wyneb arni, a gordd yn digwydd bod yn ei law.

Beth bynnag aeth rhywun i gyfarfod â'r cerddwr rhag ofn fod ganddo rhyw wybodaeth, a phwy oedd o ond y dyn ei hun wedi ei ddilladu yn dwsiadus. Deallwyd wedyn fod yr hen fachgen wedi mynd ar ei union i'r Winllan, Penisarwaun, lle'r oedd ganddo berthnasau. Roedd o wedi cael cnyswd a siwt, ac wedi anfon yn ei ôl ar ei ben ei hun! Chafwyd byth wybod beth oedd argraff y bobl rheini o'i ganfod ar eu trothwy gefn nos yn y fath gyflwr. Mae hynny yn dal yn ddirgelwch anatrus. Ond bu fyw am gyfnod wedyn. Dipyn o gyfansoddiad mae'n rhaid.

Roedd yna gangen arall o'r teulu yn byw yn Nhros-y-Waen. Rolant Wmffras, a oedd dros ei bedwar ugain oed yr adeg honno, oedd y penteulu. Dyna un arall y bu fy nhad yn disgwyl y plygain yn ei lofft fwy nag unwaith. Tua'r adeg honno yr oedd Michael Duff yn priodi yn Llundain, a gwahoddwyd rhai o'r tenantiaid hynaf yno i'r rhialtwch, ac yr oedd Rolant yn eu plith. Beth bynnag, wrth iddynt gael eu tywys i weld rhyfeddodau'r ddinas, mi gollodd yr hen ŵr y ras, a bu'n golledig fel dafad am rai dyddiau pryderus. Cafodd plismon hyd iddo yn y diwedd yn crwydro a'i esgidiau yn ei law. Mae'n rhaid eu bod nhw yn chwanog o fod yn nhraed eu sanna fel teulu. Fu yna fawr o drefn arno fo byth wedyn.

O'r diwedd daeth tro fy nhad. Roedd o wedi bod yn ferthyr i'r clefyd-melys a'i gymhelthdodau ers hir amser. Yn hen Ysbyty Môn ac Arfon yr oedd o, a minnau'n rhannu gwyladwriaethau'r nos hefo rhyw nyrs bach o'r enw Stassi, a oedd wedi dianc o Budapest pan orthrymwyd y dref honno mor ddidrugaredd gan

y Rwsiaid.

Pan fu farw fy nhad daethpwyd a fo adref i'r bwthyn unllawr hwnnw lle roeddent wedi mudo o'r hen fferm. Roedd fy mam ac eraill un pnawn wedi mynd i'r dre i gael angenrheidiau addas gan fy ngadael yn y gegin ffrynt yn gwmni iddo. Daeth cnoc sydyn ar y drws, a phwy oedd yno ond rhyw sipsan fechan yn gwerthu, a doedd yna ddim troi arni. Roedd hi mor daer fel y cymerodd gam neu ddwy i mewn i'r tŷ, a gwelodd yr arch. Diflannodd ar drawiad fel pebai llew ar ei hól.

Yn ddiweddarach daeth rhywun arall. Dyn dieithr i mi oedd hwn, cymharol ifanc. Roeddwn i'n trigo yn Lloegr yr adeg honno.

'Dr . . . ydw i,' meddai heb ragymadrodd. 'Wedi dod i weld Mr Joseph Williams.'

Roeddwn i wedi gwaredu cymaint ar y pryd fel y dywedais, 'Yn y fan yma mae o. Dowch drwodd.'

Gweddnewidiodd y dyn a wyddai o ddim beth i'w ddweud. Rhyw ddyn newydd oedd o wedi cymryd lle doctor Felinheli am dro, a ddim yn gwybod am yr amgylchiadau. Bu'n edifar gen i y weithred lawer gwaith.

Ond beth a adawodd yr argraff ddyfnaf arnaf yn ystod yr achlysur oedd un weithred foneddigaidd a oedd yn nodweddiadol o'r parch cymdeithasol diflanedig hwnnw bellach.

Pan oeddwn i'n treulio'r nos wrth ochr fy nhad yn Ysbyty Môn ac Arfon, roedd yn rhaid i mi gael cerbyd i Gaernarfon y peth cyntaf yn y bore a bŷ y chwarel o'r fan honno i'r King a cherdded i'r Waen Winnau.

Pwy oedd yn gweithio yn y traenia ar ochr y lôn yr adeg honno yn digwydd bod on Griffith Jones, Y Celyn, a byddai'n gofyn imi yn ddyddiol sut oedd fy nhad. Roeddwn i'n dod i lawr y lôn y bore olaf hwnnw i ddweud wrth Mam fod fy nhad wedi darfog yn yr oriau mân. Doedd dim telefon yr adeg honno. Gofynnodd Griffith Jones ei gwestiwn arferol.

'Mae hi wedi dŵad i'r pen mae arna i ofn, Griffith Jones,' medda fi. 'Taw di,' medda fo. 'Mi ddof i weld dy fam.'

'Dowch rŵan,' meddaf inna yn ddigon di-feddwl. 'Fydd dim ond hi a minna yno.'

'Na, mi ddof i eto, wyddost ti,' medda fo. A dyna a wnaeth.

Gyda'r nos daeth cnoc ar y drws, ac yr oedd o yno yn ei ddillad gorau, ei sgidia wedi eu blacio a giard ar draws ei wasgod. Roedd o wedi cerdded yn ôl i'r Celyn, bwyta a molchi a rhoi trefn arno'i hun a cherdded bob cam yn ei ôl wedyn wedi ei ddiwrnod gwaith i roi hanner coron o arian danfon yn llaw fy mam a chydymdeimlo.

Bob tro y byddaf mewn angladd erbyn hyn, ac mae'r achlysuron rheini yn mynd yn amlach, byddaf yn cofio am Griffith Jones, Y Celyn. Roedd yna barch i'r byw a'r meirw yr adeg honno.

Bydd Atodiad Eistedd-fodau'r Fro yn ymddangos gyda'r rhifyn nesaf. Cofiwch anfon eich canlyniadau ynghyd â pheth o'r cynyrch llenyddol i'r golygyddion mewn da bryd!

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

**BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**

**NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!**

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



**(01286) 671181
(0831) 326160**



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Diolchgarwch: Cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch gyda graen arno yng Nghapel Bethel (A) ddydd Sul, 13 Hydref, pan gymerodd holl blant yr Ysgol Sul ran. Hyfforddwyd hwy gan Mrs Beti Owen a Mrs Elen Ellis. Daethant a'u rhoddion fel arfer a ddanfonwyd wedyn i Gartref St. Teilo, Bethel. Yr organyddes oedd Mrs Beti Owen. Diolchwyd i'r plant gan y gweinidog, y Parchedig Gwynfor Williams.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd ail gyfarfod y tymor yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, 9 Hydref. Croesawodd y llywydd, Mrs Deilwen Hughes, bawb yn enwedig y rhai a oedd yn ymaelodi â Merched y Wawr am y tro cyntaf. Diolchodd i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r stondin gacennau yn y Carnifal ac i bawb a roddodd gynnyrch. Darllenwyd llythyr o ddiolch i'r rhai fu'n casglu at Ymchwil y Galon, ac i bawb a fu'n cynorthwyo gyda chyngherdd agoriadol yn y Cysegr, ac yn arbennig i Glenys Griffiths am baratoi'r tocynnau a'r tocynnau aelodaeth. Llongyfarchodd blant Bethel ar eu llwyddiant yn eu arholiadau a dymunodd yn dda iddynt yn eu cyrsiau newydd; i Meinir a Gwyn Williams, Bro Eglwys, ar enedigaeth Gwawr, chwaer fach i Siân Catrin. Cydymdeimlwyd â Mr a Mrs David Williams, Llanddwyn, ar golli brawd yng nghyfraith yn ddiweddar.

Os oes unrhyw un am gyfrannu nwyddau tuag at raffl yr Eisteddfod Bentref a wnewch chi gysylltu â Sheila Foulkes, Tyddyn Gwndwn, neu Rhian Bardsley, Stad Eryri, neu os oes gennych blanhigion i addurno'r llwyfan. Cofiwch hefyd am gystadleuaeth y llinell goll.

Gwirfoddolodd wyth i fynd i gynorthwyo gyda bwyd yn ystod yr Wyl Gerdd Dant ar 9 Tachwedd yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.

Mae cardiau Nadolig wedi dod i law ac ar werth gan y Trysorydd. Bydd cinio Nadolig eleni yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, enwau ac arian i'r Trysorydd yn y cyfarfod nesaf — £15 fydd y gost. Bydd ymarferion Dathlu'r Nadolig (Rhagfyr 13) yn dechrau yn fuan, enwau i Deilwen Hughes neu Eirlys Sharpe, yr Ysgrifennydd, os gwelwch yn dda.

Gwraig wadd y noson oedd Bethan Jones Parry, Bangor, a chafwyd noson ddifyr yn ei chwmni yn sôn am y ffordd y bydd yn darllen papurau newydd i'w hadolygu ar y radio yn y bore. Diolchwyd iddi gan Alys Jones. Y gwestwragedd oedd Glenys Griffiths, Eirlys Williams a Mair Read. Enillwyd y raffl gan Deilwen Hughes.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Tachwedd 13, pryd y daw Glenda Jones, Rhostryfan, i arddangos Eislin Siwgr. Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno. **Diolchgarwch:** Ddydd Sul a dydd Llun, Hydref 20 a 21 cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch y Cysegr. Cynhaliwyd gwasanaeth fore Sul gan blant yr Ysgol Sul a oedd wedi eu hyffordd gan yr athrawon. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd sgwrs ddifyr a pherthnasol gan Mrs Gwyneth Speke. Cafwyd casgliad o £60 tuag at gronfa i brynu cyfrifiadur i Gavin Parry o Fethesda sy'n dioddef o anhwylder sy'n peri iddo fethu cyfathrebu. Bydd y cyfrifiadur yn help iddo i gyfathrebu â'i athrawon a'i deulu. Dydd Llun cafwyd gwasanaethau dan ofal y swyddogion.

Clwb Bro Bethel: Ddydd Gwener, Medi 27, aeth 38 o bersonau, sef aelodau a chyfeillion o Glwb Bro Bethel, am wibdaith i Aberystwyth gan gyrraedd yno tua chanol y bore. Cawsant gyfle i ymweld â'r siopau a glan y môr a chael paned. Yna yn ystod y prawn aed ar ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol ac fe'n tywyswyd o amgylch gan aelodau o'r staff. Roedd yn agoriad llygad i lawer a chafwyd ymweliad â rhannau o'r Llyfrgell sy'n arferol ar gau i'r cyhoedd. Cafwyd cyfle i weld fideo arbennig yn olrhain hanes y sefydliad yn ogystal â gweld enghreifftiau o waith y Llyfrgell. Cafwyd peth amser hefyd i fynd o amgylch yr arddagosfeydd diddorol sydd yno.

Ar y ffordd adref cafwyd pryd o fwyd yn Cletwr, Tre'r Ddôl.

Gwnaed y trefniadau gan Mrs Bessie Ellis, yr ysgrifennydd, a Mrs Mary Griffiths, trysorydd, yn cael eu cynorthwyo gan Jenkin a Glenys Griffiths. Diolchwyd iddynt gan y Parchg Gwynfor Williams.

Adloniant a Choffi: Yn ddiweddar

daeth nifer ddan i wrando ar Bedwarawd Pres Porthaethwy yn rhoi datganiad yng Nghapel y Cysegr. Er nad fel pedwarawd maent yn perfformio fel arfer cafwyd ganddynt ddatganiadau diddorol a phleserus i wrando arno. Yn dilyn y datganiad cerddorol gwahoddwyd pawb i'r Festri am sgwrs, paned a bisged. Roedd elw'r noson yn mynd tuag at y Capel.

Trefnwyd y noson gan flaenoriaid y Cysegr a'r baned yn cael ei rhoddi gan eu gwragedd. Cyflwynwyd gweithgareddau'r noson gan Jenkin Griffiths ac yn ystod y cyfarfod cyflwynodd Goronwy Jones rodd o gadair hardd i John Owen Penrhynbach gynt, ac yntau a Mrs Owen bellach wedi symud i fyw i Lanrug. Rhoddwyd y gadair gan eu gydflaenoriaid a'r gweinidog fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o wasanaeth John Owen yn y Cysegr am flynyddoedd lawer fel blaenor, ysgrifennydd, trysorydd ac ysgrifennydd y cyhoeddiadau. Cyflwynwyd iddo hefyd englyn, o waith Richard Lloyd Jones, wedi'i fframio. Diolchwyd i bawb am y noson gan y Parchedig W. R. Williams.

Eisteddfod Bentref Bethel: Bydd y canlyniadau i gyd yn rhifyn nesaf o'r Eco. Cynhelir pwyllgor y neuadd nos Fercher, Tachwedd 6, am 7.30 o'r gloch.

Bydd Noson Dawnsio Disgo a Dawnsio Gwerin yn Neuadd nos Wener, Tachwedd 15, am 6.30 o'r gloch. Yr arweinydd fydd Siân Harris a'r beirniaid fydd — gwerin: Bethanne Williams, Llanrug; disgo: Linda Jones, Abersoch. Enwau, os gwelwch yn dda, i Caryl Owen ar 670754 erbyn 11 Tachwedd. Dewch yn llw i gefnogi dawnsiwr ieuainc y pentref.

Clwb 300 y Neuadd: Enillwyr gwobrau mis Medi oedd — £20: Angharad Price, 5 Tan-y-ffordd (170); £10: Ceinwen Williams, Cefn Gwyn (51); £5 yr un: Dewi Williams, Cefn Gwyn (56); Huw Williams, Cefn Gwyn (69); Griffith Jones, Trigfa, Erw Bian (205); Ceri Evans, Parciau Rhos (195); Eryl Roberts, Bryn Rhedyn (67); Idris Jones, Tyddyn Oer (115); Llinos Williams, Hafod, Parc-y-wern (66); Ella Roberts, Acer Las, Y Rhos (216).

Newyddion o'r Ysgol: Mae hanner y tymor newydd bellach wedi mynd heibio a phawb wedi setlo yn eu dosbarthiadau newydd. Mae Mrs Mari Williams, athrawes newydd Blwyddyn 2 a 3, wedi hen ymgartrefu fel aelod o'r staff.



Elen Robinson a ddewisiwyd i Dîm Pel-rhwyd Gwynedd.

Cafwyd Cyfarfod Diolchgarwch fore lau, 17 Hydref, yng nghwmni'r Parchg W. R. Williams. Cymerwyd y rhan ddechreuol gan rai o blant Bl.6. Wedi stori amserol iawn gan y Parchg W. R. Williams gorffennwyd y gwasanaeth gyda chân o ddiolch gan adran y Babanod, dan hyfforddiant Mrs Mari Williams, a rhai o blant iau'r ysgol yn cyfeilio. Gwned y casgliad eleni at War y Plant, Ysbyty Gwynedd, ac Ysbyty Alder Hey, Lerpwl. Soniwyd am bwysigrwydd Ysbyty Alder Hey fel ysbyty i blant yr ysgol ac fe gofiwyd am Jamie Whitmore sydd gartref wedi iddo dderbyn triniaeth fawr yn yr ysbyty honno, a dymunwyd gwellhad buan iddo.

Yn bresennol yn y gwasanaeth roedd Mr Roy James, prif arolygwr ysgolion Cymru, a Mr Huw Lloyd Jones, argolygwr ysgolion.

Yn dilyn y cyfarfod o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, dan gadeiryddiaeth Mr Gwyn Williams, penderfynwyd trefnu Ffair Nadolig, 6 Rhagfyr am 6.30 o'r gloch.

Nos lau, 7 Tachwedd, dan nawdd y Gymdeithas cynhelir bingo yn Neuadd yr Ysgol am 6.30 o'r gloch. Gobeithio y bydd y noson yn un mor hwyliog a llwyddiannus ac yn y gorffennol.

Cyn diwedd y tymor cynhelir Ffair Lyfrau yn yr ysgol. Mae nifer o blant eisoes yn cynilo stampiau i'w helpu i brynu llyfrau ac mae'n bosib i bawb wneud hynny gan hwyluso'r gost ar y diwrnod.

Cefnogwch ein
Hysbysebwyd

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GORSAF BETROL

Esso **BERAN**

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

O SIAMBAR SELWYN

A ninnau ar drothwy'r Wyl Gerdd Dant mae 'na amryw wedi tynnu fy sylw at y ffaith fod 'na gymaint o newid wedi digwydd yn hen dre Caernarfon ers pan gyfansoddwyd y darn prawf ar gyfer y gystadleuaeth adrodd i gyfeiliant i gorau.

Fe gyfansoddwyd pryddest 'Y Dref' ar gyfer cystadleuaeth y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Clwyd, 1973, bron i chwarter canrif yn ôl.

Fe soniais eisoes am hyn yn rhifyn Mawrth 1995 o'r *Eco* pan gefais wahoddiad i fynd i Ysgol y Sanes Helen, Caernarfon i drafod y gerdd gyda'r plant. Ydy, mae *Swyddfa'r Herald*, *Cornel Astons* a'r *Ffowntan* wedi diflannu. Rhyw foi o'r enw *Shearer*, nid *Wyn Davies* ydi arwr Parc St. James' bellach. Roedd y pafiliwn wedi hen fyn cyn cyfansoddi'r bryddest, ond roedd yr atgofion yn fyw, ond mae'r *gŵr oedd yn 'nabod' nhad, a 'nhad yn 'i nabod yntau,* yn dal i fygwth fandaliaid y maes gyda'i ddwrn o garreg — ond does na'r un creadur byw yn gwrando arno.

Cadeirydd gweithgar Pwyllgor Gwaith yr Wyl Gerdd Dant ydi Geraint Lloyd Owen. Anaml iawn y bydda i yn mynd i'r hen dre heb fy mod i'n troi i mewn i *Siop y Pentan* am sgwrs. Mae Geraint a finna ar yr un donfedd hefo lot o betha. Rydan ni'n ymddiddori yn y *pethe* llawn mwy nag ydan ni'n ymddiddori yn y *bêl-droed*. Rydan ni'n hoffi sôn am deithio i bellafoedd daear hefyd. Felly o droi i mewn i *Siop y Pentan* does ryfedd yn y byd fy mod i'n cael sgysiau difyr ac amrywiol a chael cyfle i gyfarfod â nifer o bobol ddiddorol hefyd. Ia, lle da am seiad ydi *Siop y Pentan*.

Mi fyddwn i yn arfer troi i mewn yn weddol gyson i siop lyfrau enwog *Y Bont Bridd* (*Siop J. R. Morris*) pan oeddwn i'n gweithio gyda Chyngor Gwyrfaei yng Nghaernarfon, flynyddoedd yn ôl bellach.

Mynd yno i wrando roeddwn i. Gwrando ar y cyn-archdderwydd, y diweddar *William Morris* a *Wil Cymro* yn gwrthio'r cwch i'r dŵr, pan ddeuai *Bob Owen*, *Croesor* yno ar ei rawd i ddryllio'r delwau.

Y ddau yn cychwyn dadl benboeth rhwng y sugnwr wdbeins a'r smociwr dail-carn-yr-ebol.

Daw hyn ag atgofion difyr am Bob Owen yn ôl i mi. Mi fyddai Bob yn galw yn fy nghartref ym Methel pan

fydda fo'n darlithio yn y cylch. Rwy'n cofio ei weld o acw, o flaen tanllwyth o dân, pan ddeuwn i adre o swyddfa Cwellyn, yn gwisgo fy slipars i, ac yn siarad fel melin bupur.

Unwaith erioed y bûm i yn Eisteddfod Llangollen a welais i ddim o'r cystadlu yno y tro hwnnw. Yr ail eisteddfod oedd hi, a phwy oedd yn cyrraedd y maes ar unwaith â fi ond y dewin o Groesor. Sgwrs garlamus a gwahoddiad — '*Tyd hefo fi.*' Roedd 'na nifer o gorau o'r America ar faes y Steddfod a dyna lle bûm i yn dilyn Bob Owen drwy'r dydd, a gwrando arno yn holi'r Americanwyr yn dwll, ac yn trafod eu hachau, ac yn perswadio sawl un ohonyn nhw fod eu teidiau a'u neiniau o dras Cymreig.

Ia, diwrnod i'w gofio oedd hwnnw — yr unig ddiwrnod i mi fod yn Eisteddfod Llangollen erioed.

Mi fûm i yn aros yn ei gartref yng Nghroesor unwaith, pan oedd Ael-y-bryn yn barwydydd o lyfrau. Roeddwn yn gwneud ymchwil i hanes hen eisteddfodau ar y pryd ac wedi cerdded o Bont Aberglaslyn, drwy Nantmor ac i Groesor. Cael croeso tywysogaidd gan Bob a'i briod Nel, ond yn ystod y dydd fe gododd storm, ac fe'm gorfodwyd i anfon neges o Bost Croesor i Bost Bethel i ddweud na fyddwn yn dod adre y noson honno.

Wel, dyna noson ddifyr. Bob yn siarad yn ddi-stop, ar dop ei lais, tanllwyth o dân yn y grât, a chôt pyjamas ei fab (Owain Tudur) ar fy nglin, a'r trowsus ar lin Bob Owen, er mwyn gwneud yn saff fod y wisg nos yn ddiogel i'w gwisgo. Roedd Bob ofn tamprwydd. Roedd y tân wedi hen ddiffodd ers oriau cyn i'r drylliwr delwau dawelu, ac i minnau wisgo pyjamas Owain Tudur a gwneud fy ffordd drwy'r parwydydd llyfrau i'r gwely yn gwmni i'r botel ddŵr poeth.

Ia, noson i'w chofio oedd honno hefyd. Angofia'i mor bore dilynol chwaith. Llais Nel yng ngwaelod y grisau yn holi '*Be gymwch chi i frechwast, Bob?*' a'r ateb yn diasbedain drwy Gwm Croesor — '*REIFITA!*'

Yn ôl ar ddyddiau difyr yn swyddfa Cyngor Gwyrfaei yn Cwellyn — dyddiau tynnu coes. Efallai fod rhai o gydweithwyr y cyfnod yn cofio hyn, gan fy mod i ar y pryd yn medru dynwared Bob Owen yn eitha llwyddiannus. Mi fûm i am flynyddoedd yn ffonio i un o'm

cydweithwyr, fel Bob Owen, ac yn deud y petha mwya hurt wrtho am ei achau, yn ei ddwrddio a'i bledu'n ddi-baid â geiriau, a'r cyfaill annwyl hwnnw, yn ei ddiniweidrwydd, yn coelio'r cyfan. Ffonio o ystafell arall yn Cwellyn fyddwn i, neu o Swyddfa'r Herald ar y maes, ac ambell dro o'r ciosg ar faes Caernarfon, a'r bobol a oedd yn mynd heibio yn edrych yn amheus arna i yn bytheirio'n wyllt. Roedd pawb yn swyddfa Gwyrfaei ac amryw yn swyddfa'r Cyngor Sir a swyddfeydd eraill yn gwybod am y jôc. Aeth y cyfaill annwyl i'w fedd yn dal i gredu fod Bob Owen wedi bod yn ei ffonio dros gyfnod o flynyddoedd, a'r cyfan wedi dechrau oherwydd iddo grybwyll yn hollol ddamweiniol wrthai iddo losgi hen bapurau hanesyddol a oedd yn llenwi ei gypyrddau.

Mi clywai o rŵan yn deud wrthai — '*Be oeddat ti isio agor dy hen geg — os oes na rywun wedi achosi poendod i mi rioed, y blydi Bob Owen, Croesor 'na 'di hwnnw.*'

Ia, dyddiau dedwydd — dyddia' tynnu coes mewn swyddfa — dyddia' di-gompiwtar.

Pe byddai Bob Owen yn dal ar dir y byw, mid fyddai heb os yn yr Wyl Gerdd Dant yng Nghaernarfon y Sadwrn hwn ac mi fyddai Geraint Lloyd Owen wedi cael darlith hir

ganddo ar 'Hanes y Delyn'.

Beth wnaeth i mi sôn am Bob Owen Croesor, dudwch? Wel, pryddest 'Y Dref' o bosib, a siop lyfrau'r *Bont Bridd* a *Siop y Pentan*.

Ac yma'n swatio'n nghesail y Bont Bridd

*mae cloc-cwecw o siop
lle doe bu seiadau llên
rhwng parwydydd llyfrau,
lle deuai'r sugnwr-wdbeins ar ei
rawd
i ddryllio'r delwau,
a'r smociwr dail-carn-yr-ebol
yn gwylltio'n gacwn
tu ôl i ffenast-ticad-trên ei gowntar.*

Ydi mae Siop J. R. Morris yn y Bont Bridd wedi diflannu hefyd.

Dymuniad Bob Owen oedd cael rhywun i ganu'r delyn ar ddydd ei angladd, a chael swp o rug y mynydd ar ei arch.

Fodd bynnag — sŵn telynau a glywir o Stiwdio Barcud y Sadwrn nesa 'ma, ac mi fydd 'na hen drafod ar yr Wyl yn Siop y Pentan yr wythnos nesa. Mae'n debyg y bydd 'na drafodaeth yno ar hynt a hlyynt tim ffwtbol y Cofis hefyd.

Dwi ddim yn cofio i mi glywed neb erioed yn sôn am ffwtbol yn hen Siop J. R. Na, taith cic rydd o'r lle cyn hwnnw — ar Gornel Astons — dyna lle byddai'r Cofis yn croeshoelio reffaris.

LLAIS OGWAN

FFAIR GREFFTAU NADOLIG

YN FESTRI CAPEL JERUSALEM BETHESDA

Dydd Sadwrn, 23 Tachwedd 1996

10.00 a.m. — 4 p.m.

MYNEDIAD AM DDIM



ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth **ALOE VERA**. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egri Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b. am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Wavell Roberts

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263



Rhian Green a Catrin Jones a ddewiswyd i garfan hoci dan 18 Gwynedd.

Plaid Cymru: Y Cyngorydd Eurig Wyn o'r Waunfawr oedd y siaradwr yng nghyfarfod cyntaf y tymor, nos Fercher, Medi 25, yng Nghanolfan Penisarwaun.

Mae Eurig Wyn yn aelod o Gyngor Gwynedd ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hefyd yn un o gynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor Rhanbarthau Ewrop, ac yn ei waith yno fe welodd wendid Cymru yn ymyl rhanbarthau a chymunedau eraill Ewrop, fel Lander yr Almaen, er enghraifft. Y duedd heddiw yw symud atebolrwydd oddi wrth y gwladwriaethau mawr i'r cymunedau llai. Pwyseleisiodd lwyddiant lwerddon, a ystyrrid gynt yn wlad dlawd, ond sydd ag incwm y pen heddiw sy'n uwch na Chymru. Pan gaiff Cymru Senedd, bydd yn holl bwysig cael yr hawl i ddeddfu ac i gyllido, fel sydd gan y rhanbarthau eraill, neu ni fydd ganddi unrhyw rym yn Ewrop.

Yn y drafodaeth yn dilyn, codwyd cwestiynau ar arian sengl, pensiynau, gofal plant a diweithdra, a diolchwyd yn gynnes i'r siaradwr gan Miss Phyllis Ellis, y llywydd.

Llongyfarchwyd Mrs W. A. Jones, Dalar Deg, ar gael ei hanrhydeddu yng Nghynhadledd y Blaid yn Llandudno yn ddiweddar. Derbyniodd dystysgrif wedi'i llofnodi gan Gwynfor Evans a Dafydd Wigley i gydnabod ei gwasanaeth diflino i Blaid Cymru am flynyddoedd lawer.

Ein llongyfarchiadau hefyd i Paul a Ffion Rowlinson o Gwm-y-glo ar enedigaeith yr efeilliaid Anest a Deiniol.

Mae'n amser talu aelodaeth y flwyddyn unwaith eto; bydd y casglwyr o gwmpas yn ystod yr wythnosau nesaf i dderbyn eich tanysgrifiadau.

Enillydd raffl y noson oedd Elen George, ac enillwyr y Clwb Cant oedd Awst: 1, Jean Davies; 2,

Twrog Jones; Medi: 1, Gareth Williams; 2, Gwenda Roberts.

Bydd Theatr Bara Caws yn perfformio drama newydd gan Mari Gwilym 'Henwalia', nos Fercher, Hydref 30, yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30 o'r gloch. Bydd hon yn ddrama gwerth ei gweld. Trefnir y noson gan Blaid Cymru.

Dymuna Gwladys M. Jones ddiolch i gangen Llanrug am ei henwebu i dderbyn anrhydedd am ei gwasanaeth hir i'r Blaid, yng nghynhadledd y Blaid yn Llandudno ym mis Hydref. Derbyniodd dystysgrif wedi'i harwyddo gan Gwynfor Evans a Dafydd Wigley.

Diolch: Dymuna Mrs E. Lloyd Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, a Menter Fachwen, ddiolch i bawb am y gefnogaeth a gafwyd yn y Noson Goffi a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Hafan Elan. Diolch i ferched y gegin am eu cymorth bob amser ac i Mrs Dilys Jones am gael defnyddio'r Ganolfan, ac i Mrs Joan Williams ac i'r teulu am eu cefnogaeth. Gwnaed elw o £240.70.

Dymuna Mrs Jones a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i Menter Fachwen am wneud bywyd Len mor hapus am y pum mlynedd diwethaf o'i fywyd.

Marwolaeth: Trist iawn oedd y newyddion am farwolaeth Kelly Ann, merch fach Mark a Margaret Pritchard, 59 Bro Rhyddallt. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i'r teulu i gyd.

Gwellhad Buan: Deallwn fod Mrs Sonia Jones, Bro Rhyddallt, gartref nawr ar ôl triniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl, ac Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella Sonia, dymuniadau gorau ichwi.

Mae Mr Harry Roberts, Rhes Pant Afon wedi dod adref o'r ysbyty hefyd ac yn gwella. Dymuniadau gorau iddo yntau a Mrs Myfi Roberts, hithau hefyd yn gwella.

Y Sgwâr: Mae Pwyllgor Ardal Arfon

o Gyngor Gwynedd wedi cymeradwyo cynllun i wella'r sustem drafnidiaeth yn Sgwâr Llanrug.

Dywedodd y Cyngorydd Charles Jones, sydd wedi bod yn brwydro am welliannau ar y Sgwâr, y dylai'r cynllun arwain at lai o ddryswch yn arbennig i drafnidiaeth o gyfeiriad Caernarfon, Bethel a Ffordd yr Orsaf. Gobeithir cwblhau'r gwaith cyn Ebrill 1997.

Parti Clychau'r Grug: Dymunir pob hwyl a llwyddiant i'r genod a'u harweinydd Glenys Griffith yn yr Wyl Gerdd Dant yng Nghaernarfon. Fe ddaethant yn drydydd pan gynhaliwyd yr Wyl ym Mangor, felly pob dymuniad da. Hydref 29ain byddant yn diddori'r Gymdeithas yng Nghapel Cysegr, Bethel. Tachwedd 29ain byddant yn Llanfairfechan a bydd Meira Turner, Waunfawr, gyda

hwy. Rhagfyr 9fed byddant yn mynd i Gymdeithas Capel Deganyw Avenue, Llandudno. Yna yn 1997 byddant yng Nghanolfan Dinorwig ar Ionawr 23ain a Chwefror 3ydd yng Nghapel Berea, Bangor.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, Hydref 1af, aeth llond bws o aelodau Llanrug a Deiniolen i weld perfformiad Cwmni Theatr Gwynedd o 'Tua'r Terfyn', sef ffars newydd iwan Edgar — llond bol o chwerthin wrth ddatrys 'y cysylltiad rhwng golff a llofruddiaeth, alcohol a'r capel a pam fod Anti Beryl wedi ei chloi yn y lle chwech?'

Nos Fawrth, Tachwedd 12fed, byddwn yn paratoi ar gyfer y Nadolig gydag addurno cacennau a chreffft siwgr gyda Mrs Delian Williams. Felly gwledd i'r llygaid a'r stumog, siŵr o fod!



Rhai o enethod ieuengaf yr Ysgol Gynradd a fu'n perfformio'r ddawns flodau yn eisteddfod y pentref.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG 11 Hydref 1996

CERDDORIAETH

UNAWD cyn oedran ysgol: 1, Elin; 2, Alys; 3, Awen. **Dosbarth Derbyn:** 1, Kyle; 2, Daniel, Gethin a Dafydd. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Ffion (enillydd Cadair Lowri); 2, Beverley; 3, Mari. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Llinos; 2, Fflur; 3, Emma. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Natalie. **Blwyddyn 7-11:** 1, Michelle. **Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 7-11:** 1, Michelle. **Unawd Werin:** 1, Michelle. **Deuawd Blwyddyn 7-11:** 1, Bethan a Delyth; 2, Elin a Sian. **Unawd Piano Blwyddyn 3 a 4:** 1, Ifan. **Unawd unrhyw offeryn pres, oedran ysgol gynradd:** 1, Guto; 2, Geraint. **Unawd Piano Blwyddyn 5 a 6:** 1, Guto; 2, Natalie; 3, Urien. **Unawd unrhyw offeryn, heblaw pres a phiano, oedran cynradd:** 1, Mark. **Unawd Piano Blwyddyn 7-11:** 1, Michelle; 2, Siôn Emyr. **Parti Unsain oedran cynradd:** 1, Twrw Mawr. **Grŵp Offerynnol:** 1, Y Potsiars. **Unawd ar unrhyw offeryn heblaw piano, Blwyddyn 7-11:** 1, Gwion; 2, Siôn Emyr a Donna (cydradd). **Unawd ar unrhyw offeryn, Blwyddyn 12 a throsodd:** 1, Rhian; 2, Ieuan. **Grŵp Gwerin:** 1, Hogia Ben Bora; 2, Parti Merched y Machlud. **Cyflwyniad Cerddorol Lleisiol:** 1, Y Merched; 2, Y Dynion.

LLAFAR

Cyn oedran ysgol: 1, Alys; 2, Elin; 3, Ieuan. **Dosbarth Derbyn:** 1, Dafydd a Kyle; 2, Gethin a Daniel. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Mari; 2, Lisa; 3, Beverley. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Megan; 2, Llinos; 3, Fflur. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Natalie; 2, Geraint; 3, Urien. **Blwyddyn 7-11:** 1, Michelle. **Siarad Cyhoeddus Blwyddyn 7-11:** 1, Michelle. **Cyflwyniad Llafar Digri:** 1, Dosbarth Mr Ieuan Wyn a'r Parti Di-enw (cydradd).

DAWNS

Parti Dawns Werin oedran cynradd: 1, Y Parti Arall; 2, Y Giang; 3, Gwylfa; 4, Parti Garth. **Dawns Werin Unigol:** 1, Llinos.

GWAITH LLAW

GWNŶO. Blwyddyn 3 a 4: 1, Fiona; 2, Ffion Haf ac Iwan Machno; 3, Iwan a Ceri. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Bethan Wyn; 2, Mark Pitts a Huw Mackinnon; 3, Rhys Morgan. **Agored:** 1, Gillian Evans; 2, Gillian Evans; 3, Sally Lloyd Davies a Gillian Evans.

GWAU. Oedran cynradd: 1, Bethan Wyn; 2, Karren Marie Evans; 3, Fiona Pitts. **Agored:** Yvonne Pitts

COGINIO. Blwyddyn 1 a 2: 1, Gerallt Bryn; 2, Ceri Wyn Griffiths. **Blwyddyn 3 a 4:** Meilyr Siôn Owen a Ffion Haf; 2, Fiona Pitts a Llinos Green; 3, Fflur Angharad Griffith. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Celfyn Edwards a Mark Pitts; 2, Mark Pitts a Steve McManaman (dim enw); 3, Geraint Iwan. **Blwyddyn 7 ac 8:** 1, Siôn Rhys; 2, Dion Owen a Ffion Meleri

(Parhad ar dudalen 12)

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

Ymweliad â Peru



Pam Peru? Cwestiwn y ceisiais ei ateb ddwsinau o weithiau i deulu a ffrindiath pan benderfynais fynd i wlad yr Incas yng Ngorffennaf eleni. Yn wir, dydi Peru ddim yn Costa del Sol hefo gwestai moethus a disgos, ond am brofiad arbennig a bythgofiadwy.

Euthum allan i Dde America efo Olwen, ffrind imi o Gaernarfon, ar yr ail o Orffennaf 1996. Y drefn oedd i ni hedfan droso i Lima, y brifddinas, a chyfarfod â gweddill y criw yno. Ar ôl oediad o saith awr (dydi'r Americanwyr ddim yn enwog am eu prydlondeb!) cyrhaeddodd Lima a chyfarfod ein cyd-deithwyr. Fy argraff gyntaf o Lima oedd ei bod hi'n ddinas fawr, fudr yn llawn *shanty towns* a Volkswagen Beetles! Wrth feddwl fod Lima ger y cyhydedd mae'n lle oer iawn a'r awyr bob amser yn llwyd oherwydd y smog. Fel ymwelwr roeddwn i braidd yn amlwg gan nad oedd y dynion ond yn 5'5" o daldra a minnau'n 5'9"! Roedd y strydoedd yn llawn o blant efo'u offer glanhau

sgidiau ac nid oedd llonydd i gael ganddynt a cheisiasant roi sglein ar fy trênyrs gwyn i sawl tro! Wedi diwrnod yn Lima roedd yn falch dros ben o gael hedfan i dde Peru i ddinas o'r enw Cusco — prifddinas yr Incas.

Ma Cusco yn ddinas hynafol iawn yng nghanol yr Andes ar lefel 3300m. uwchlaw lefel y môr. Roedd yn llawn olion yr Incas — y waliau enwog, eglwysi'r Incas yn ogystal â'r siopau twristiaid a werthai rygiau, ponchos, ac ati. Dinas llawn cymeriad ydi hi ac yn aml iawn fe welir y bobl leol yn gwisgo eu hetiau a'u ponchos traddodiadol yn eistedd ger y ffordd yn gwerthu ffrwythau a bara. Roedd hi fel bod yn Ffrainc gyda phawb yn gwisgo beret du, siwmpwr streipiau, nionod,



Nia ac Olwen yn Machu Picchu.

ac yn reidio beiciau! Roedd y nosweithiau'n gyffrous iawn oherwydd yn aml roedd grwpiau'n chwarae'r pibau-pan. Cefais hefyd flasu'r bwyd lleol gan gynnwys mochyn cwta. Bûm hefyd yn rafftio ar yr afon Urubamba (un o isafonydd yr Amazon).

Mae'r Incas yn genedl hen a chryf iawn ac fel ni'r Cymry efo'u hiaith a'u diwylliant eu hunain. Yn y bymthegfed ganrif daeth ffermwr moch o'r enw Pizzaro o Sbaen a chroncro'r wlad. Er mai Sbaeneg yw iaith swyddogol y wlad mae Quechua yn cael ei siarad mewn trefydd a phentrefi ac maent yn falch iawn o'u hetifeddiaeth. Roeddnt yn grefftwy'r penigamp gan adeiladu bwrdeisdrefi fel Cusco, Sacsaywaman (a elwir yn *Sexy-woman!*), Pisac a Machu Picchu.

Tra'n aros yn Cusco aethom ar deithiau i weld adfeilion rhai o'r trefydd hyn gan ddysgu am eu ffordd o fyw ganrifoedd yn ôl. Ar y ffordd yn ôl o un o'r teithiau hyn fe arhosom ger cwt clai ar gyrrion un o'r pentrefi. Cawsom wahoddiad i mewn am 'chicha' — y cwrw cartref lleol wedi'i wneud o ôd. Hen ddynes, tua 4'10" o daldra oedd yn byw yno. Tŷ â llawr pridd iddo a dim dodrefn heblaw am fatres, hen fwrdd, stolion a grât yng nghornel yr ystafell. Yn gwmni iddi roedd yna tua dwsin o foch cwta a oedd dan eich traed ymhobman. Nid oedd yno sôn am drydan ac yn sicr nid oedd toiled ar gyfyl y lle. Roedd hi'n golchi ei dillad yn nŵr yr afon gerllaw ac yn ennill ychydig o geiniogau drwy werthu'r 'chicha' i unrhyw un a fyddai'n aros yno. Roedd fel y bydda i'n dychmygu am Gymru ryw ddau ganmllynedd yn ôl. Y peth sy'n

anhygoed ydi bod pobol yn byw fel hyn rŵan yn 1996. Agoriad llygad a dweud y lleiaf.

Yr hyn a apeliai imi o fynd i Peru oedd y cyfle i fynd i gerdded. Ers rhai blynyddoedd bellach rydw i wedi bod yn hoff iawn o gerdded mynyddoedd ac yn aml iawn gellir fy ngweld ar ben ryw fynydd yn Eryri. Roeddwn wedi clywed am yr 'Inca Trail' — taith 42km o Chilca i Machu Picchu, hen ddinas golledig yr Incas. Golygai hynny gerdded trwy'r Andes a'r coedwigoedd glaw trofannol a oedd yn llawn planhigion a ffawna amrywiol. Wrth gwrs roedd yn rhaid campio. Un diwrnod roedd yn rhaid dringo i uchder o 4200m — sydd bedair gwaith uchder y Wyddfa. Yn ffodus iawn nid oedd yn rhaid inni gario popeth ein hunain gan fod porthorion (ffermwyr lleol)



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar Ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/Ffacs: (01286) 672619

Richard S. Humphreys

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

yn cludo'r llwythi i ni — am dâl. Roedd hyn yn arferiad ac yn ffynhonnell arian iddynt dros y gaeaf. Tirlun amrywiol oedd i gael ar ein taith ac roedd pob dydd yn wahanol — cacti un diwrnod tegeirianau (orchids) ar ddiwrnod arall. Roedd y tywydd yn amrywio hefyd — awyr las yn y dyffrynnoedd a glaw mân yn y coedwigoedd. Wedi pedwar diwrnod o gerdded cyrhaeddasom y fan yr oeddwn i wedi breuddwydio amdani ers blyneddau bellach — Machu Picchu.

Pan welais olion yr hen ddinas bu bron i mi rio gydag emosiwn - dinas yr Incas yng nghanol y mynyddoedd mewn cyflwr perffaith bron.

Paham fod Machu Picchu mor arbennig clywaf chi'n gofyn? Hyd at 1917 ni wyddai'r gymdeithas wladol am ei bodolaeth. Cafwyd hyd i'r ddinas gan Americanwr o'r enw Hiram Bingham a'i galwodd yn Machu Picchu ('hen fynydd' yn

Quechua). Hon ydi unig ddinas yr Incas na chafodd ei dinistrio gan y Sbaenwyr yn y bymthegfed ganrif ac felly mae hi'n ddinas o ddiddordeb mawr i haneswyr ac archaeolegwyr. Ond i mi mae gan Machu Picchu ynghanol mynyddoedd mawr yr Andes hud anesboniadwy. Cyfuniad o brydferthwch a hanes lliwgar yr Incas mae'n debyg sy'n apelio, ynghyd â'r ffaith bod tebygrwydd mawr mewn llawer ffyrdd i'n hanes ni'r Cymry.

Yn anffodus Machu Picchu oedd terfyn ein taith ac wedyn rhaid oedd gwneud ein ffordd yn ôl i Lima er mwyn hedfan yn ôl adref. Cyrhaeddodd yn ôl i Gymru fach ar y 16eg o Orffennaf wedi pythefnos addysgol, hwyliog a gwahanol iawn. Fe gofias am y profiad am byth ac edrychaf ymlaen rŵan am gael mynd i Dde America eto — Patagonia efallai?

NIA GRIFFITHS, Llanberis



TLWS YR IFANC EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG CAMGYMERIAD gan Siân Heledd Green

Wnai byth anghofio'r diwrnod yna tra bydda i fyw. Y diwrnod heulog, ond rhewllyd, er ei bod hi'n fis Mehefin. Roedd hi'n ddydd Sadwrn a chlamp o haul llwynog mawr yn syllu o'r awyr i lawr arnom ni yn dawnsio o gwmpas fel Indiaid Cochion gan drio, ond yn ofer, i gadw'n gynnes. Rhwbiai Meleri ei dwylo yn erbyn ei gilydd i gadw'i bysedd rhag iddynt droi'n biws.

'Meleri, 'sgen i ddim 'mynedd aros yn yr oerni trwy'r dydd,' meddwn yn ddiamynedd. 'Be am fynd adre i edrych ar y cylchgrawn 'nes i brynu ddoe. Dwi'n siŵr bod 'na lun o Brad Pitt ynddo fo'n rhywle 'sti.'

'Mae'n siŵr dy fod ti'n iawn, does gen i ddim 'mynedd disgwyl am Owain drwy'r dydd. Er, f'aswn i'n lot hapusach ar ôl gweld ei wyneb dim ond am eiliad. Dim ots os f'asai Lynwen hefo fo hefyd, yn gafael yn ei law ac yn fflicio cydyn o wallt lliw llygoden dros ei hysgwydd. 'Dwn i ddim be mae o'n ei weld ynddi 'sti, yn tarfu ar bawb a phopeth wrth iddi gnoi'r gwm cnoi yn swnllyd ac agor ei cheg led y pen. Mae'n ddrwg gen i, es i am dro trwy ddrws fy nychymyg unwaith eto. Mae'n well i ni fynd cyn rhewi'n gorn.'

Roeddwn i'n iawn. Safai Brad

Pitt o flaen y camera yn gwenu'n braf ar un o dudalennau'r cylchgrawn. Gadewais Meleri'n glafoerio dros y llun i fynd i wneud paned o siocled poeth i ni'n dwy. Edrychais allan drwy'r ffenest y gegin gan ddisgwyl gweld Persi, ein ceiliog, a Martha Drafferthus, ein iâr, yn rhedeg o gwmpas yr ardd yn wyllt neu'n chwilio am ambell bry' genwair ymysg y pridd. Doedd Martha na Persi i'w gweld yn unman. Rhedais allan i'r ardd, fy llygaid yn archwilio pob twll a chornel o'r ardd. Yn gyntaf tybiais eu bod wedi dianc o'r ardd drwy dwll yn y ffens yn rhywle. Clywais sŵn. Doi'r sŵn o sied yr ieir, sylwais fod drws y sied ar gau. Mam bach! Roeddwn wedi anghofio agor y drws i Persi a Martha yn y bore. Yn waeth byth, roeddwn wedi anghofio rhoi bwyd iddyn nhw! Rhedais i'r tŷ i nôl y bwyd ieir yna rhedais yn ôl at y sied ac agor y drws led y pen fel bod Persi a'i blu crand yn cael digon o le i gerdded allan yn swel. Tolltais yr hadau brown i mewn i bowlen yr ieir gan sicrhau bod ganddynt ddigon o ddŵr i'w yfed. Yna cerddais yn ôl at y tŷ gan deimlo'n eithaf euog. Ciliodd fy euogrwydd dipyn bach wrth feddwl am y rhwyg mawr a ddarganfyddais echnos. Roedd un o'r ddau wedi rhwygo fy nghrys amryliw sidan a gostiodd ddeugain punt mewn sêl!

Yr ast hunannol i mi. Blin efo'r ieir am rwygo fy nghrys. 'Sgwn i sut maen nhw'n teimlo tuag ata' i yn awr wrth eistedd ar gymylau yn nefoedd am eu lladd. Yn fy mrys, roeddwn wedi estyn bocs o wenwyn llygod i'r ieir. Doeddwn i'n teimlo dim hanner mor euog ddoe ac yr ydw i nawr. Wedi drysu'n lân ac yn brysio i fynd allan o'r oerni roeddwn i wedi lladd dwy iâr diniwed. Mae'n swnio'n ffordd ddigri i fynd i nefoedd, ond i mi mae'n gywilyddus. Hogan hunannol yn lladd dwy iâr. Wrth i mi drio cysuro fy hun, ceisiaf ddweud mai dim ond camgymeriad oedd y cwbl. Un camgymeriad mawr a laddodd ddwy iâr ar yr un pryd.

DRAENOG



Oes 'na ryw fanteision (neu anfantetion) i'w cael o fyw ym mharthau Pontrug, tybed? Ydach chi'n cofio'r plwg drwg 'nw o wynt cry gawso' ni rai wythnos'n ôl? Hen wynt cas; hen wynt mileinig; gwynt chwara tricia maleisus.

Wedi picio allan i'r garej roedd hi. Wnai ddim deud pwy. (Mi gewch chi gesio pwy 'di'r gryduras annfodus ma'r Draenog yn hoff o bigo arni!)


Dim byd o'i le mewn picio allan i'r garej — ond, daria'r gwynt — mi gauodd ddrws y garej yn glep ar 'i hól, a hwnnw wedi'i gloi. Bu'n waldio'r drws ac yn gweiddi ar 'i gŵr. Roedd hwnnw'n pendroni ble'r aeth y wraig, ac allan â fo i chwilio. Y cwbl glywa fo oedd sŵn y gwynt yn hyrddio'n erbyn drysa'r seiedia a'r garej yn y cefn — ond roedd rheini'n saff dan glo, ac yn ôl a fo i'r tŷ. Meddylodd eto: ble allai'r wraig fod? Yn y toiled ella? Na, doedd neb yno, ac ar ôl cael y tŷ wag, allan â'r gŵr eilwaith i chwilio'r iard. A dyna pryd y canfu hi — yn hanner dringo allan o ffenast y garej — ac yn bytheirio'r gwynt a'i gŵr.

Doedd hi ddim yn ffenast fawr — ond siawns na allai dawnsu'r wraig Albanaidd o fri fedru dringo allan ohoni'n ddigon diffwdan. Ydi'r Herald wedi clwad y stori tybad?

FFENESTRI PADARN

FFENESTRI · DRYSAU
YSTAFELLOEDD HAUL

UPVC



Gadewch inni roi pris — am ddim

Ffoniwch: (01286) 871774

2 Tai Bwthyn

PENISARWAUN

GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI

CABS LLANRUG

Ffôn: (01286)

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

LLANRUG (parhad o dudalen 9)

Jones; 3, Siôn Emyr. **Blwyddyn 9 a 10:** 1, Michelle Clarke a Gwion Iwan; 2, Ceri Jones a Hefin Roberts; 3, Meleri Mair Griffith a Nicola Edwards. **Agored (Merched):** 1, Gillian Evans; 2, Sally Lloyd Davies; 3, Yvonne Pitts a Linda Jones. **Agored (Dynion):** 1, Malcolm Pitts; 2, Rolant Wynne; 3, Rolant Wynne. **Agored - Jam:** 1, Eirianwen Thomas; 2, Eirianwen Thomas; 3, Ann Jones. **Agored - Siytni:** 1, Ann Jones; 2, Eirianwen Thomas; 3, Ann Jones. **Agored - gwin:** 1 a 2, Dafydd Whiteside Thomas.

TRI DIMENSIWN. Cyn oedran ysgol a Dosbarth Derbyn: 1, Rhys Jones; 2, Dyfan Gwyn Lloyd Jones ac Efa Dyfan. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Declan Jones; 2, Gwenno Catrin Jones a Gerallt Bryn. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Cai Dyfan; 2, Meilyr Siôn Owen a Ffion Haf; 3, Fiona Pitts. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Rhian Angharad Jones; 2, Llion Glyn a Mark Pitts. **Blwyddyn 7 ac 8:** 1, Siôn Rhys; 2, Dion Owen; 3, Gethin Jones.

ARLUNIO. Oedran Ysgol Feithrin: 1, Awen Hughes; 2, Lisa Williams; 3, Gwion Dafydd Williams. **Dosbarth Derbyn:** 1, Gethin Green; 2, Rhys Jones. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Ceri Griffith; 2, Gerallt Bryn; 3, Siôn Eifion. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Fiona Pitts; 2, Dafydd Meredydd Williams; 3, Ffion Haf a Meilyr Siôn Owen. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Mark Pitts (enillydd Cwpan Emma Barnard); 2, Natalie Blanchard; 3, Natalie Blanchard. **Blwyddyn 7 ac 8:** 1, Donna Griffiths; 2, Dion Siôn Owen; 3, Siôn Rhys. **Blwyddyn 9 a 10:** 1, Meleri Mair Griffiths.

FFOTOGRAFFIAETH. Agored: 1, Pat Jones; 2, Siân Alaw Jones a Malcolm Pitts; 3, Dion Siôn Owen.

LLENYDDIAETH

Tlws yr Ifanc: **SIÂN GREEN**
Medal Llenyddiaeth:

DELYTH MEDI HUMPHREYS

RHYDDIAITH. Blwyddyn 3 a 4: 1, Emma; 2, Fflur; 3, Megan. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Geraint; 2, Ceri; 3, Eifion. **Blwyddyn 7:** 1, Siôn Emyr; 2, Anthea; 3, Siân. **Blwyddyn 8 a 9:** 1, Siân; 2, Elin; 3, Meri a Nia (cydradd).

BARDDONIAETH. Blwyddyn 3 a 4: 1, Llinos ac Ifan (cydradd). **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Ceri Roberts; 2, Natalie a Karen (cydradd); 3, Ceri Williams. **Blwyddyn 7:** Siôn Emyr; 2, Anthea. **Blwyddyn 8 a 9:** 1, Nia.

DAU DDARN O WAITH MEWN CYFRWNG GWAHANOL. Blwyddyn 10 ac 11: 1, Gwion; 2, Michelle. **Blwyddyn 12 a 13:** 1, Delyth; 2, Rhian.

TESTUNAU AGORED

Darn o ryddiaith greadigol: 1, Mair Humphreys; 2, Nant Roberts a Mair Humphreys.

Erthygl addas i'w chyhoeddi yn Eco'r Wyddfa: 1, Franc Green.

Dros 60 oed: 1, Mrs E. W. Thomas. **Limrig:** 1, Gwenda Roberts.

CHIROPODIST

Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffon:
(01286) 675754

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

HUGH THOMAS JONES: Bu farw yn sydyn, 11 Hydref, yn Ysbyty Gwynedd o 6 Vaynol Terrace. Priod y ddiweddar Elizabeth May Jones. Treuliodd y rhan helaethaf o'i oes fel chwarelwr yn Ninorwig, gan fyw yn Vaynol Terrace, Deiniolen o'i fabandod. Roedd popeth ynglŷn â'r pentref yn agos at ei galon a chefnogai'n frwd y tîm pêl-droed a'r band. Roedd hen hanes y pentref ar flaenau ei fyseidd. Am gyfnod ef oedd ysgrifennydd y Gymdeithas Lenyddol yn y pentref. Ond diau mai Eglwys Llandinorwig oedd agosaf at ei galon lle bu'n ysgrifennydd, trysorydd a warden yn ei dro. Yno y cynhaliwyd yr angladd ddydd Mercher, 16 Hydref. Gwasanaethwyd noswyl yr arwyl gan y Ficer y Parchg Tegid Roberts ac fe ddisgrifiodd fel y dychwelai Hughie Jones i'w gartref ysbrydol. Ar ddydd ei angladd gwasanaethwyd gan gyn-Ficer y plwyf, y Canon Glyndwr Williams. Yr organydd oedd Mrs Margaret Griffiths. Cludwyd Hughie Jones ar ei daith olaf gan ddau gyfaill a gerddodd lawer yn ei gwmni, sef Alun Wyn Evans a Donald Jones. Y cludwyr eraill oedd Tydfil Jones, yntau wedi hebrwng llawer ar Hughie Jones i'r Gymdeithas; a thri aelod o deulu ei ddiweddar briod, sef Brian Owen, Swydd Caer; Gareth Owen, Llandegai, a Huw G. Owen, Môn.

Collodd ei wraig hoffus, May Jones, yn 1980 o'r cancr. Fe droes yntau at arlunio, er torri'r unigrydd a'r hiraeth trwm yn ei brofedigaeth, ac fe welodd fodd i godi arian tuag at Ymchwil y Cancr. Gwahoddodd nifer o'i gymdogion a'i gyd ardalwyr i arddangosfa o'i waithyn ei gartref gan dderbyn rhoddion ac fe gasglwyd swm anrhydeddus a'u trosglwyddo i gronfa leol y sir.

Roedd Hughie Jones yn gymeriad cifyr ei gwmni; dyn gwybodus iawn ac fe feddai ar ddawn barddoni digrif — fel y tystiai amryw a dderbyniodd benillion am eu troeon trwstan.

Mae teulu iddo yn byw yn Unol Daleithiau America a chafodd ei dderbyn yn aelod anrhydeddus o Gymdeithas Cymrodorion Bangor, Pennsylvania, ac yn ystod mis Awst 1995 fe alwodd y llywydd a'i ddwy ferch yn Rhes y Faenol gan gyflwyno medal i Hughie Jones. Roedd hwnnw yn ddiwrnod arbennig iawn yn ei fywyd.

Bydd ei gymdogion a'i ffrindiau yn siŵr o'i golli. Diolchwn am y fraint o'i adnabod a threulio oriau yn ei gwmni difyr a chydymdeimlwn a'i deulu oll.

Diolch: Dymuna teulu y diweddar Hughie T. Jones, 6 Rhes y Faenol, Deiniolen, ddiolch o galon i bawb am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Y Gymdeithas Lenyddol Undebol: Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Ebeneser, nos Fercher, 30 Hydref, am 7 o'r gloch. Y wraig wadd fydd Mrs Nesta Jones ac fe fydd yn olrhain gyrfa ei mab, Bryn Terfel, gyda sgwrs a lluniau. Croeso cynnes i bawb.

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru — mis Medi: £10: Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin; £5: Mrs L. M. Lewis, Llys Annedd. **Mis Hydref:** £10: Mrs

Eirlys Gibson, 17 Hafod Olau; £5: Mrs Jane Thorman Jones, 14 Tai Caradog.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Eurwen Roberts a'i chwiorydd a theulu y diweddar Mr Hughie Jones, 6 Rhes Faenol, ddiolch i ffrindiau a chymdogion am y cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli cefnder ac am y rhoddion hael tuag at Ymchwil y Cancr. Diolch i'r merched fu'n helpu gyda'r lluniaeth yn yr Eglwys wedi'r angladd. Diolchir yn arbennig i'w ffrindiau a fu mor garedig a ffyddlon iddo dros y blynyddoedd diwethaf. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Rhian Wyn Morris ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno yn ddiweddar.

PLAID CYMRU

FFAIR NADOLIG

YN Y GANOLFAN, DEINIOLEN

NOS WENER, 6 RHAGFYR

am 7 o'r gloch

Mynediad 40c (plant 15)

BYDD SIÔN CORN YN YMWELD



Garddwr o Ddeiniolen sy'n dipyn o bencampwr ar dyfu tomatos yn methu deall rhyw ddiwrnod pan holai pobol os oedd o'n lecio tomatos wedi'u ffrío. Brysiodd adref a darganfod fod ei dŷ gwydr wedi llosgi'n ulw. Mae hen air yn deud na ddylai perchnogion tŷ gwydr daflu cerrig . . . dylid ychwanegu na ddylen nhw smocio chwaith, er lles eu hiechyd hwy a'u tŷ gwydr!

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range
Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR GYFER PICLO

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Ymgyrch Plentyn y Nadolig: Byddwn yn casglu bocsus esgidiau wedi eu llenwi ag anrhegion Nadolig i blant yn Bosnia, Croatia, Romania a gwledydd eraill eleni eto. Yr elusen Ymgyrch Plentyn y Nadolig sy'n trefnu'r gwaith. Cysylltwch â John Pritchard, Cilfynydd (872390) am ragor o fanylion ac am sticer arbennig i'w roi ar y bocsus. Bydd angen £2 gyda phob bocs at gost cludiant. Mae angen i'r bocsus fod yn barod erbyn Tachwedd 15. Anofnwch hwy i Ysgol Dolbadarn neu i Gilfynydd, Llanberis.

Lleisiau Lliwedd: Bu Lleisiau Lliwedd yn cadw sawl cyngerdd i ddifyrru ymwelwyr yng Ngwesty'r Fictoria yn ystod yr haf. Mae'r parti wedi dechrau tymor y gaeaf yn reit brysur gan ymweld â Thal-y-sarn ddiwedd Medi a Rhos-y-gad, Llanfairpwll, ddechrau Hydref.

Côr Meibion Dyffryn Peris: Wedi misoedd digon tawel, ag eithrio rhai cyngherddau lleol, mae tymor y gaeaf wedi aildechrau. Dechreuwyd trwy gael gwahoddiad i ymuno â Dai Jones, Llanilar; Bryn o'r Bryn a Doreen Lewis, mewn noson lawer yng Ngwesty Bryn Morfydd, ger Dinbych. Trefnwyd y noson gan Tudur Jones, Llanellwy, ac roedd yr elw yn mynd tuag at Ysbyty Glan Clwyd.

Nos Sadwrn, Hydref 19, bu'r grŵp enwog Broc Môr yn diddanu yng Ngwesty Dolbadarn. Trefnwyd y noson gan Elwyn Jones ac roedd y raffl yng ngofal Roy Griffith. Dyma enillwyr y raffl: 1, Mrs Bethan Evans; 2, 871481; 3, Mrs Hefina Jones; 4, Idwal Williams; 5, G. Lewis; 6, Noel Davies; 7, Roy Griffith; 8, Tudur Jones; 9, Mrs Iola Evans; 10, Bobby Owen; 11, Adrian Wakeham 12, Mrs C. Bee.

Bydd cyngerdd eto yng Ngwesty Dolbadarn nos Wener, 22 Tachwedd, yng nghwmni'r diddanwr Dilwyn Pierce o Lanelwy a Chôr Meibion Prysor. Cofiwch y dyddiad! **Taith y Côr:** Mae pwyllgor merched Côr Meibion Dyffryn Peris yn dechrau cyfres o weithgareddau i godi cronfa er mwyn helpu'r Côr i fynd i Luxembourg a Gwlad Belg ym mis Medi 1997. Gwerthfawrogi pob rhodd a dderbynnir at yr achos.

Y Gymdeithas Undebol: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor newydd y

Gymdeithas yn festri Capel Coch, nos Fawrth, Hydref 1. Y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon, oedd y gŵr gwadd a chafwyd sgwrs ganddo ar y testun 'Hiwmor'. Rhoddodd enghreifftiau o straeon a dywediadau digrif o wahanol ardaloedd y bu'n byw ynddynt. Trefnwyd y noson gyda chymorth Cynllun Awdur ar daith Cymdeithas Gelfyddydau'r Gogledd.

Capel Coch: Cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch yr eglwys ddydd Sul, Hydref 20. Cymerwyd rhan yn oedfa'r bore gan rai o chwiriorydd yr eglwys ac yn oedfa'r nos gan y swyddogion. Cynhaliwyd oedfa'r plant yn y prynhawn a chafwyd cyfraniadau gan bob dosbarth yn yr Ysgol Sul. Diolch i'r athrawon am eu holl waith yn trefnu'r gwasanaeth. Roedd paned i'w chael ar ôl yr oedfa er mwyn codi arian at yr elusen Tear Fund.


Aelwyd: Rydym wedi sefydlu Clwb leuenctid newydd yn y capel a fydd yn cyfarfod bob yn ail nos Fercher. Byddwn yn gweithredu hefyd fel Aelwyd yr Urdd er mwyn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir yn ganolog gan yr Urdd. Bydd y cyfarfod nesaf am 7 o'r gloch, nos Fercher, Tachwedd 13.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn festri Eglwys St. Padarn bnawn Mawrth, 1 Hydref. Y siaradwr gwadd oedd y Parchg Emyr Owen ac ef hefyd a arweiniodd y gwasanaeth agoriadol, gyda Mrs Dilys Phillips yn darllen rhan o'r Ysgrythur.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Edwards, Victoria House sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Llongyfarchwyd Mr a Mrs Arfon Phillips ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar yr ail o Hydref.

Mrs Hilda Wyn Williams a Miss Cathleen Pritchard oedd yn ymorol am y te a diolchwyd iddynt gan Mrs Audrey Evans gyda Mrs Muriel Morris yn eilio'r diolch. Enillydd y raffl oedd Mrs Clara Roberts.

Jerusalem: Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach, a gynhaliwyd Hydref 1 gyda Mr Robert Thomas yn y gadair, cafwyd sgwrs ddiddorol gan y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon am y cymeriadau a gyfarfu yn ystod ei yrfa a'r dylanwadau a gawsant ar ei fywyd.



Martin Willis, Rory O'Donnell a Lee Hughes a ddewiswyd i garfan pêl-droed dan 15 Gwynedd.

Parhaodd y drafodaeth dros baned o de a bisgedi. Bydd y cyfarfod nesaf ar 5 Tachwedd am 2 o'r gloch, o dan arweiniad Hugh R. Jones. Croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Bu cyfarfod o Gymdeithas yr Eglwys yn St. Padarn, nos Iau, Hydref 3ydd, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Agorwyd y cyfarfod trwy weddi dan arweinid y Parchg Gwynfor Williams. Croesawyd y gŵr gwadd, Mr Deiniol Hughes o Gaeathro, gan y llywydd a chafwyd noson arbennig iawn yn ei gwmni a bu llawer o bendroni a dyfalu beth oedd pwrpas y gwahanol greiriau yr oedd Mr Hughes wedi dod gydag ef.

Diolchwyd iddo ac ferched y te, Mrs Bet Hughes a Miss Nancy Williams, gan Mrs Moreen Lennon. Mrs Katie Williams oedd enillydd y raffl y mis yma.

Diolchiadau:

Dymuna Goronwy Lewis ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch i'r meddyg teulu ac yn arbennig i holl staff Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Dilys ac Arfon Phillips, Coed y Glyn, ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar yr 2il o Hydref. Diolch yn fawr.

Dymuna Pran a Gillian, 10 Llwyn Onn, Llandrillo-yn-rhos, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Rajiv Tristan Asodia ar 20 Awst.

Dymuna Margaret Griffiths, 2 Bryn

Teg ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra roedd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Dymuna Gracie Roberts, Waterfall View ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y blodau, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 3 Hydref.

DRAENOG

Rhaid imi gydymdeimlo â golygydd newydd Rhaglen Clwb Pêl-droed Llanberis. Llwyddodd i berswadio'i frawd yng nghyfraith i roi hysbyseb yn y Rhaglen am y tymor newydd. **OND . . . anghofiodd newid y copi a roddwyd iddo ac fe argraffwyd Rhaglen Pêl-droed Llanberis gyda'r hysbyseb: 'BEST WISHES TO MOUNTAIN RANGERS F.C.'** arno. Rŵan mae'r golygydd yn gorfod chwalu'r geiriau hynny oddi ar oddeutu 100 o raglenni bob wythnos. Dilys, pryn focs o baent papur iddo y 'Dolig' ma.

DRAENOG

Chiv bach, mae'n rhaid iti fod yn fwy gofalus. Un ai paid â gwneud pethau gwirion neu gwna'n saff nad ydi'r Draenog o gwmpas. Y tro yma, stori am y creadur yn paentio'r tŷ a ddaeth i'm clyw. Collodd dŷn o baent dros y gath nes bod honno'n felyn. Gobeithio nad ffordd o ddial ar y gath druan oedd hyn am fwyta swper dy dad y llynedd!

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o loriau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650552



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul



J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

HANES CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Yn dilyn marwolaeth yr Henadur hynaws cyfarfu nifer o'i gyfeillion yn Compton House, Llanberis, nos Iau, Chwefror 13, 1974, i ymdrin â'r priodoldeb o ffurfio ymgyrch i goffáu R. H. Owen.

Yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf hwnnw roedd Mr David Parry, Elwyn Hughes, John Rees Jones, Ieuan Ellis Jones ac Aled Owen.

Penderfynwyd, a hynny'n unfrydol, i ffurfio cronfa goffa a dewiswyd y canlynol yn swyddogion — Cadeirydd: Mr David Parry; Is-gadeirydd: Mr Ieuan Ellis Jones; Ysgrifennydd: Mr Aled Owen. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i Reithor y Plwyf, y Canon Alun Jones; Prifathro Ysgol Dolbadarn, Mr Stanley Owen; Rheolwr Banc y Midland, Mr Eurwyn Jones; a'r Dr Dan R. Hughes, meddyg lleol, i ymuno â'r pwyllgor.

Yn yr ail gyfarfod, ar 6 Mawrth 1974, caed pwyllgor llawn ac fe etholwyd y Canon Alun Jones yn gadeirydd gan y dymunai Mr David Parry ymddiswyddo; a Mr Eurwyn Jones yn drysorydd. Caed trafodaeth ar y dulliau o gasglu arian ac hefyd natur y goffadwriaeth.

Penderfynwyd apelio am arian drwy argraffu dwy fil o gopïau ac fe addawodd y Canon Alun Jones i eirio'r apêl. Mewn cyfarfod ar 4 Ebrill 1974 llongyfarchwyd y Canon am ei waith rhagorol, ac yna mewn cyfarfod ar 16 Ebrill archwiliwyd gopi'r argraffydd o'r apêl a phenderfynwyd dosbarthu'r llenyddiaeth ar 21 Ebrill 1974.

Bu ymateb cyflym a boddhaol i'r apêl a chawn mewn cyfarfod nos Iau, 25 Ebrill, y trysorydd yn hysbysu aelodau'r pwyllgor ei fod wedi derbyn £106 mewn cyfraniadau. Yn ystod y misoedd nesaf chwyddodd y gronfa ac erbyn 31 Mawrth 1975 yr oedd y swm anrhydeddus o £2,897.73 yn y coffrau. Mewn cyfarfod ar 1 Medi 1975, caed ar ddeall gan y trysorydd ei fod wedi derbyn £242.39 mewn llogau. Felly, erbyn hynny roedd ychydig dros £3,000 yn enw'r gronfa.

Yn y cyfamser gofynnwyd i Mr Emyr Thomas, Caernarfon, i weithredu fel cyfreithiwr mygedol i'r gronfa, ac yn fuan wedyn ffurfiodd Mr Thomas yr Ymddiriedolaeth a daeth Cronfa Goffa R. H. Owen i fod yn swyddogol a chyfreithlon.

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mai 1974 ymdriniwyd â'r gwahanol

ddulliau i ffurfio'r goffadwriaeth, megis neilltuo ystafell yn Llyfrgell newydd y Sir yng Nghaernarfon, neu yn Llyfrgell leol Llanberis. Yna, ar 6 Mehefin 1974, tan gyfarwyddyd Mr Emyr Thomas, penderfynwyd ar y dull o roi grantiau i bobl ifanc hyd at 25 oed i hyrwyddo dysg, galwedigaethau a diddordebau. Cofrestrwyd y Gronfa fel elusen a phenderfynwyd argraffu ffurflenni ceisiadau, yr amodau, a'r rheolau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ym Mai 1975 drwy gyfrwng yr addoldai a newyddiaduron lleol gwahoddwyd ceisiadau am grantiau ac ar 1 Medi 1975 rhoddwyd grantiau am y tro cyntaf o'r Gronfa, a hynny i bedwar ymgeisydd.

Yn ystod yr un mlynedd ar hugain a aeth heibio fe dalwyd cyfanswm o dros £12,000 mewn grantiau o'r Gronfa. Swm anrhydeddus yn wir o ystyried mai £3,000 yw ei gwerth. Ond nid grantiau'n unig a dalwyd ond symiau eraill hefyd i hyrwyddo astudiaethau, galwedigaethau a diddordebau ieuenctid. Er enghraifft, ym Medi 1977 rhoddwyd cyfraniad i ymgeisydd tuag at brynu clarinet. Mewn cyfarfod yn Ebrill 1984 rhoedd swm o arian i fyfyrwr tuag at y gost o fynd i Brifysgol Bangkok, Thailand, i astudio clefydau heintus. Yna, ar 22 Mai 1995, derbyniodd efrydydd gyfraniad tuag at y gost o fynd i Equador i astudio problemau cymdeithasol a gyfyd o dlodi yn y wlad honno. Do, fe roddwyd grantiau tuag at addysg, galwedigaethau a diddordebau yn ystod y blynyddoedd a byddai'r diweddar R. H. Owen yn falch o hanes a gweithgarwch y Gronfa.

Mae'n rhaid crybwyll hefyd am gefnogaeth a gafodd y Gronfa yn ystod ei bodolaeth a cheir cyfeiriadau i'r perwyl hwn yn y cofnodion.

Mewn cyfarfod ar 7 Medi 1981 deallwyd fod Gronfa wedi derbyn — £50 gan Gyngor Cymuned Llanberis; £25 gan Gyngor Cymuned Llanrug; £10 gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen; a symiau anrhydeddus gan unigolion eraill. Ar 9 Medi 1982 derbyniwyd £50 oddi wrth Gyngor Cymuned Llanberis a £60 gan Bwyllgor Canrifal Llanberis. Derbyniodd y Gronfa rodd flynyddol gan Gyngor Cymuned Llanberis a gwerthfawrogir y gefnogaeth a gaed.

Yng nghyfarfod 10 Medi 1983 penderfynwyd cyhoeddi y

gwahoddiad am grantiau yn *Eco'r Wyddfa* a gwnaed hynny ym Mehefin a Gorffennaf 1984, ac mewn cyfarfod ar 10 Medi 1984 dywedodd y trysorydd nad oedd wedi derbyn 'bil' oddi wrth Bwrth yr Eco. Ydyw mae *Eco'r Wyddfa* wedi cyhoeddi'r hysbysiadau yn hollol ddi-dâl bob blwyddyn a diolchwn i'r Eco am y caredigrwydd yma.

Colodd yr Ymddiriedolaeth bum aelod gwerthfawr yn ystod y blynyddoedd — Mr Dafydd Eilian Parry, y Canon Alun Jones, Mr John Rees Jones, Mr Elwyn Hughes a Mr Aled Owen.

Etholwyd Mr Ieuan Ellis Jones i'r gadair ar 12 Medi 1983, a deil i lenwi'r swydd gyda pharch ac anrhydedd. Ym marwolaeth Mr John Rees Jones, Mrs Dafydd Eilian Parry, a Mr Elwyn Hughes collwyd aelodau doeth a chydwybodol ac ar ymddiswyddiad Mr Aled Owen ym Medi 1992, oherwydd gwaeledd, collwyd ysgrifennydd arbennig a gŵr gofalus ac egwyddorol.

Fel y cyfeiriwyd eisoes etholwyd

Mr Eurwyn Jones yn drysorydd ar gychwyn hanes y Gronfa a deil i weithredu gyda gofal. Drwy ei wybodaeth ef am gyllid a'i ymroddiad i'w swydd caed coffrau iach a llwyddiannus.

O'r aelodau gwreiddiol erys Dr Dan R. Hughes, Ieuan Ellis Jones ac Eurwyn Jones. Rhaid nodi hefyd fod Mr Bert Thomas wedi bod ar fwrdd yr Ymddiriedolwyr ers yn gynnar, sef Medi 1979, a rhoddodd yntau wasanaeth clodwiw i'r Gronfa.

Aelodau presennol yr Ymddiriedolaeth yw — Cadeirydd: Ieuan Ellis Jones; Is-gadeirydd: Brian Jones, Cwm-y-glo; Trysorydd: Eurwyn Jones; Ysgrifennydd: John H. Hughes; Bert Thomas, Dr Dan R. Hughes, Y Parchg D. John Pritchard, Y Parchg Philip Hughes a Mr Ralph D. Jones.

Edrychir ymlaen i'r dyfodol gyda'r un bwriad i gefnogi ieuenctid y fro mewn modd teilwng i goffáu gwerinwr dyngarol.

JOHN H. HUGHES, Ysgrifennydd

YN ÔL I'R ARDD FFARWEL HAF

Dyma'r Cyfarfodydd Diolch am y Cynhaeaf — y ffermwr am ei gnydau a ninnau'r garddwyr yn diolch am brydferthwch ein blodau. Er mai tyfu mewn potiau a wneuthum cafwyd gweledd o liwiau, gyda mynawyd y bugail a'r begonia yn arbennig, ac er imi ddod â nhw o dan do rhag noson o farrug eu dinistrio maent yn dal i flodeuo yn y cyntedd.

Dyma gyfres garddio'r BBC wedi dirwyn i ben ac hefyd *Gardner's World*. Roedd un dipyn yn farus eisiau'r ddwy raglen. Edrychwn ymlaen at y gwanwyn am fwy o raglenni cyffelyb — 'Melys moes mwy' ydi hi hefo mi.

Byddai pobol oedd yn tyfu tatws cynnar yn y gwanwyn yn gofyn i arddwr, 'Ydach chi wedi gorffan yn yr ardd?' a'r ateb fyddai, 'Fyddai i byth yn gorffan'. A dyna'r gwir — does dim diwedd ar y gwaith, yn union fel gwaith tŷ.

Mae yna waith tacluso cyn y gaeaf. Mae'r gwrych wedi'i dorri (diolch i Antur Waunfawr) a'r llwyni sydd wedi gorffen eu gyrfa wedi eu tocio. Mae'r afalau wedi eu hel — dim cymaint â'r llynedd ond diolch am yr hyn a gaed.

Rŵan mae 'na botiau gwag eisiau eu llenwi er mwyn inni gael tipyn o liw yn y gwanwyn. Y ffefryn, wrth gwrs, ydi'r cennin pedr. Roeddent yn

dangos ar y rhaglen sut i gael fel ail grop o'r un pot: compost, wrth gwrs, ac yna bylbiau a rhagor o compost a mwy o fylbiau wedyn — felly 'dw innau wedi arfer gwneud hefyd.

Dyna'r tiwlip lliwgar sydd yn blodeuo tipyn hwyrach na'r cennin. Gydag ymyl y pot gellir hau *forget-me-not*, neu pansï, neu'r aubretia glas.

Y mae'r ychydig tomatos a dyfais yn y tŷ gwydr, ond gallaf hel y rhai sydd heb aeddfedu, eu lapio mewn papur newydd a'u rhoi mewn drôr dywyll. Y llynedd roedd gen i rai oedd wedi aeddfedu i fyny i'r 'Dolig. Wrth gwrs y ffordd boblogaidd gan lawer o wragedd tŷ ydi gwneud siytni afalau a thomatos gwyrdd — blasus iawn hefo cig oer.

Mae'r blodau mihangel wedi bod mewn potiau allan drwy'r haf a byddant yn cymryd lle'r tomatos a gobeithio yn rhoi tipyn o liw yn ystod misoedd tywyll Tachwedd a Rhagfyr.

Cofiaf imi ddweud wrth weinidog rywdro, gan ymffrostio, 'Edrychwch be ydw i wedi'i dyfu.' A'i ateb oedd, 'Chi plannodd nhw neu eu hau, ond rhyw Allu Mwy na ni sydd yn eu tyfu.'


A dyma'n cyfle ninnau i ddiolch i'r Gallu Mawr hwnnw.

Hwyl ichi tan y gwanwyn.

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Enillwyr y Clwb 300: mis Mehefin — £40: Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd Ceunant; £25: Gladys Greasley, Minafon; £10: Mrs R. A. Hughes, 15 Tref Eilian. Mis Medi — £40: P. N. Greasley, Minafon; £25: Haydn Jones, Rhandirmwyn; £10: R. Edwards Melin y Wig. Mis Hydref — £40: Hugh Williams, Glaslyn; £25: A. Brown, Glanaber; £10: Mrs Beryl Jones, Dol-y-coed.

Genedigaethau: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i bum teulu yn y pentref a fendithiwyd â genedigaeth baban bach yn ystod y mis.

Ganwyd merch fach, Rebecca Elen, i Jennifer a Jiwlian, Angorfa.

Merch fac a anwyd i Claire a Ken, Haul a Gwynt, Faye Rhiannon, chwaer fach i Hannah.

Ganwyd mab bychan, Ryan, i Beverley a Jonathan, 19 Stad Tŷ Hen.

Ganwyd merch fach, Ruby Elen, i Amy a Kevin, Glan Gwyrfa, wyres fach gyntaf Don a Luned Roberts, Sŵn y Gwynt. Croeso i Kevin a'i deulu bach yn ôl i fyw i'r Waun.

Daeth Elfed a Janice Jones, Bryn Menai, yn daid a nain am yr eildro. Ganwyd merch fach, Lowri, i Heather ac Alan yng Nghwm-y-glo, chwaer fach i Ffion.

Ymdeoliad: Dymuniadau gorau i Mrs Irid Williams, Bro Waun ar ei hymdeoliad o'i gwaith gyda chwmni Butterley Bricks, Caernarfon. Hefyd croesawn Mrs Williams adref o'r ysbyty gan ddymuno adferiad iechyd buan iddi. **Adref o'r Ysbyty:** Croeso adref i Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni; Mr Glyn Owen, Glan Gors; ac i Evan Hughes, 3 Bryn Golau wedi iddo dreulio cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd. Dymunwn adferiad buan i chwi eich tri.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mrs Janet Smith, Rhos-lan; Mrs M. Jones, Tref Eilian; a Miss Eirlys Roberts, Bro Waun sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir â Mr David Jones, Lynfod, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu a frindiau y ddiweddar Mrs Nancy Thomas, Tan-y-foel; ac a theulu y

ddiweddar Julia Roberts, Ael-y-bryn. **Dathlu Pen-blwydd:** Dymuniadau gorau i David Bound, Bryn Difyr ar gyrraedd ohono ei ben-blwydd yn 18 oed.

Priodas: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da a hapusrwydd i Susan Beech, Bronallt ar ei phriodas â Jeff.

Diolch: Dymuna Elwyn, Gwynfor a theulu y ddiweddar Mrs J. Parry, Clydfan, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli eu mam. Diolch am y cyfraniadau ariannol a dderbyniwyd. Trosglwyddwyd siec am £188 i Feddygfa Waunfawr er cof am Mrs Parry.

Newid Aelwyd: Dymunwn bob hapusrwydd i'r teuluoedd sydd wedi symud cartref yn y pentref ac i'r rhai sydd wedi ymgartrefu yma. Croeso i'r Dr Prys Morgan Jones yn ôl i'r Pant ar ei newydd wedd.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cyfarfu'r Gymdeithas, am y tro cyntaf y tymor yma, nos Lun, 14 Hydref. Cafwyd noson rhagorol yng nghwmni Lleisiau'r Gweunydd gan roi dechrau gwyd i'r tymor. Hyfforddwraig y parti yw Einir Wyn a chafwyd unawdau gan Einir, Veronica, Wenna a'r unig fachgen, Arwel, sydd hefyd yn canu'r cornet gyda seindorf enwog Deiniolen. Mrs Nancy Edwina Jones oedd yr arweinydd, a llywydd y noson oedd Mr Iolo Huws-Roberts. Diolchwyd i'r parti gan Miss Marian Wyn Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 11 Tachwedd, a'r gŵr gwadd fydd y Parchg Harri Parri, a'i destun fydd 'Llwg ym Mhen Llŷn'.

Clwb Ieuenctid Waunfawr: Mae'r Clwb Ieuenctid wedi bod yn agored bellach ers mis Medi gyda rhaglen ddiddorol wedi'i threfnu. Llongyfarchiadau i Glenda Roberts, yr arweinydd, ar enedigaeth mab, Osian Glyn, yn ddiweddar. Hefin Owen yw'r arweinydd dros-dro gyda Sulwen Roberts yn ei gynorthwyo.

Etholwyd yr aelodau canlynol i'r pwyllgor aelodau — Cadeirydd: Suzanne Jones; Is-gadeirydd: Catrin Williams; Trysorydd: Heledd Elfryn; Is-drysorydd: Llion Dafydd; Ysgrifennydd: Elin Hughes; Is-ysgrifennydd: Ceri Hughes.

Bu'r aelodau yn chwarae bingo yn ddiweddar gyda Gwenllian Dafydd yn lwcus yn ennill y 'Jacpot'. Bu

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Awdur Arall: Yn ogystal ag Arfon Williams, mae gan y pentref awdur arall sydd wedi ymchwilio ac ysgrifennu lluo o lyfrau ffeithiol ar bynciau hanes yn ddiweddar, sef Reg Chambers Jones, Hafod Wen, Penrhos. **Bless 'Em All**, agweddau o'r Ail Ryfel Byd yng ngogledd-orllewin Cymru yw ei lyfr diweddaraf a'r cyhoeddwyd yw Bridge Books ac fe elleir ei brynu yn Siop y Pentan. **Plygu'r Eco:** Braint Caeathro yw plygu'r Eco ym mis Tachwedd. Y noson fawr yw nos lau, 28 Tachwedd, a'r lleoliad yw Clwb Glangwna, a'r amser o 5.30 p.m. ymlaen. Croeso i bawb sy'n awyddus i ymestyn cymorth ymarferol.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

TACHWEDD:

3: Y Parchg Trefor Jones (2)

10: Y Gweinidog (2)

17: Y Parchg Iorwerth Jones Owen (5.30)

24: Mr John Roberts (2)

RHAGFYR:

1: Y Gweinidog (2)

8: Y Gweinidog (2)

Y Dynfa Fisol: Enillwyr mis Hydref oedd — £40: Jacky Evans, Llecyn Clyd (66); £25: Beti Roberts, Monfa (23); £15: Oliver Thomas, Llwyn Celyn (28); £5: John Mosley, 8 Erw Wen (59).

Cymdeithas y Cae Chwarae: Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol nos Lun, 21 Hydref, yn y Pafiliwn.

Yn anffodus dim ond y pwyllgor presennol, dau ymddiriedolwr a dwy o blant y pentref, oedd yn bresennol. Yn ei adolygiad o'r flwyddyn cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth dau o gymdogion a chefnogwyr y cae chwarae — Bob 'Caeathro Bach' a Harry Burke. Yn ystod y flwyddyn mae'r pwyllgor wedi ffensio'r lle cyn chwarae, wedi ailgysylltu'r cyflenwad trydan a chaniatáu i'r tîm pêl-droed gynnal gêmâu wythnosol ar y cae. Cyn bo hir bydd yn rhaid aildoi'r Pafiliwn. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol y Trysorydd gyda mawr ddiolch. Ailetholwyd y swyddogion canlynol — Cadeirydd: Clive James; Trysorydd: Wally Evans; Ysgrifennydd: Alun Roberts. Ailetholwyd hefyd y pwyllgor — Wendy Thomas, Dafydd Roberts, Shaun Atkinson, Peris Thomas, Huw Ceiriog a Wyn Jones.

Ar gyfer tymor y Nadolig cynhelir parti Nadolig y plant lleiaf yng Nglangwna nos Lun, 23 Rhagfyr. Fel arfer bydd coeden Nadolig wedi'i goleuo, anrhegion i'r henoed a rhodd i'r bobl ifanc. Ceisir trefnu parti Nadolig i oedolion pebai lleoliad addas i'w gael.

Cinio Nadolig: Eleni trefnir cinio Nadolig ar gyfer trigolion dros 16 oed yng Ngwesty Tywysog Cymru, Caernarfon, nos Sadwrn, 14 Rhagfyr. Cost y pen fydd £10 — hanner y gost i'w thalu wrth archebu tocyn. Bydd manylion pellach ar gael cyn bo hir.

aelodau eraill yn dringo yng Nghanolfan Beacon yn y Ceunant. Daeth Clwb Ieuenctid Bontnewydd draw i gael gêm bêl-droed gyda'n aelodau iau ni yn colli, ond y rhai hŷn yn ennill. Bydd trip i sgelfrio i Lannau Dyfrdwy yn cael ei drefnu yn fuan; gweithdy fideo, a llawer o bethau eraill. Croeso i aelodau hen a newydd — oed 13-19 oed (Blwyddyn 9 Ysgol Uwchradd ymlaen).

Merched y Wawr: Nos lau, Medi 26, agorwyd tymor newydd y gangen dan lywyddiaeth Marian Wyn Jones. Noson i ymaelodi a chroesawu aelodau hen a newydd ydoedd.

Ategodd y llywydd deimladau'r gangen o golli teulu gweithgar ac ymroddgar o'r pentref, sef Joy ac Eifion a'r teulu, Plas Bod Hyfryd, sydd wedi symud i fyw i Gaerdydd.

Dymunwn y gorau i'r teulu bach.

Cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Eiga Lewis Roberts ac fe swynwyd yr aelodau gan ei ffordd diymhongar yn sgwrsio am ei dawn fel awdures. Bydd un anrheg Nadolig amlwg yn siŵr o gyrraedd hosan ein haelodau. Diolchwyd iddi yn ddifffuant gan Rhian Ellis. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Glenys Jones a'r enillydd oedd Mrs Cadi Jones. Gofalwyd am y te gan Mrs Owen Owen a Mrs Glenys Jones.

Plaid Cymru: Bydd Ffair Plaid Cymru eleni ar nos Wener, 6 Rhagfyr, yn y Ganolfan. Bydd arwerthiant hefyd. Cysylltwch ag Eurig Wyn (650512) os oes gennych unrhyw eitemau i'w gwerthu.

Mae croeso i bawb sydd am ymuno neu gefnogi'r Plaid i gysylltu â Jean Jones (Ysgrifennydd Aelodaeth), Llwyn Onn, Waunfawr (650444). Penderfynwyd dechrau ymgyrchu a chodi arian ar unwaith ar gyfer yr etholiad cyffredinol a gynhelir naill ai ddiwedd 1996 neu ddechrau 1997.

Cefnogwch ein
Hysbysebwyd

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112

● Ar agor bob diwrnod
o'r wythnos
● Prisiau arbennig
i bensiynwyr

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD
BANGOR
(01248)
354646

COFIO

gan T. Meirion Hughes

Daeth yn fis Tachwedd unwaith eto, a dyma'r adeg o'r flwyddyn y byddwn ni'n coffáu y rhai a gollasant eu bywydau mewn dau Ryfel Byd, sef y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-18) a'r Ail Ryfel Byd (1939-45).

Cynhelir y gwasanaethau coffa ar y Sul agosaf at yr unfed ar ddeg o'r mis, ac y mae arwyddocad arbennig i'r dyddiad gan mai am un ar ddeg o'r gloc, ar yr unfed dydd ar ddeg, o'r unfed mis ar ddeg y daeth y cadoediad i rym, a thrwy hynny roi terfyn ar y Rhyfel Mawr yn 1918.

Er mai ym mis Awst 1945 y daeth yr Ail Ryfel Byd i ben, daliwn i goffáu y rhai a laddwyd yn y ddau ryfel ar ddechrau mis Tachwedd. Unwaith y flwyddyn y cynhelir gwasanaethau ger y cofgolofnau mewn trefi a phentrefi ym Mhrydain a gwledydd y Gymanwlad. Felly hefyd yng ngwledydd Ewrop oddieithr mewn tref o'r enw Ieper, yn yr iaith frodorol, Fflemeg, neu Ypres yn Ffrangeg. Yno cynhelir gwasanaeth byr bob dydd o'r flwyddyn a hynny o dan fw y Menenpoort, neu a rhoi'r enw Saesneg i'r porth hwn, Menin Gate. Cofgolofn enfawr yw'r Menenpoort lle torrwyd enwau 54,896 o filwyr o Brydain a'r Gymanwlad a gollasant eu bywydau yn ymladd i amddiffyn yr Ypres Salient rhag y gelyn.

Hyd y gwyddys nid oes gan yr un milwr sydd a'i enw wedi'i gerfio yma, fedd yn un o fynwentydd milwrol niferus y cylch. Deallir hefyd mai y rheswm dros gynnal gwasanaeth coffa yno'n ddyddiol yw mewn ateb i gwpld a geir mewn Soned Saesneg o waith y bardd Siegfried Sassoon, Ail Is-gapten yn y Ffiwsilwyr Cymreig.

Yn ôl yr hanes roedd bron pob adeilad yn nhref Ieper wedi cael eu difrodi gan dân-belennau'r gelyn erbyn 1917, ac nid oedd ond dau dwmpath o gerrig i'w gweld lle safai'r hen Menenpoort gynt, a thrwy'r adwy honno yr arferai'r milwyr gychwyn ar eu taith foreol i wynebu'r gelyn. Mintai gref yn cychwyn ond dim ond rhyw ddynaid yn dychwelyd gyda'r hwyr, a dyma a ofynnodd Siegfried Sassoon, gŵr a oedd wedi'i chwerwi gan y rhyfel ac â'r dulliau annynol o ymladd:

Who will remember passing through this Gate

The unheroic dead who fed the Guns?

Pwy fydd yn cofio? Atebwyd ef gan bobl Ieper 'FE GOFIWN NI', a bydd ers diwrnod agor y Menin Gate

newydd yn 1923, cynhelir gwasanaeth yno am 8 o'r gloch bob nos o'r flwyddyn, a bydd biwglwyr, chwech ohonynt fel rheol, aelodau o Frigâd Dân Ieper yn canu'r 'Last Post' a gosodir torchau o flodau yno gan swyddogion o Gyngor Tref Ieper.

Cefais innau'r profiad o sefyll o dan fwa'r porth yn ddiweddar, a phrofiad ysgytwol ydoedd, yn enwedig o gofio mai pwrpas codi'r gofodail ydoedd i goffáu pob milwr o Brydain a'r Gymanwlad na chafodd ei gladdu mewn bedd a'i enw arno, fel y gweddill o'i gymrodwr a syrthiodd ar Faes y Gad.

Er mor fawr yw Porth Menin, buan iawn y sylweddolwyd nad oedd digon o le ar ei furiau i gynnwys yr enwau i gyd, a bu'n rhaid codi cofadail arall 18 cilomedr o Ieper, yn Tyne Cot, mynwent filwrol yn Passendale, lle torrwyd enwau 34,984 o filwyr a gollwyd o dan yr un amgylchiadau. Enwau ydynt o'r rhai a syrthiodd ar ôl 16 Awst 1917 hyd ddiwedd y rhyfel.

Y tro diwethaf i mi sefyll yn y porth oedd ar y diwrnod olaf o Orffennaf, 1997, 75 o flynyddoedd i'r diwrnod y lladdwyd Hedd Wyn, y bardd o Drawsfynydd a gysylltir ag Eisteddfod y Gadair Ddu, Penbedw, 1917, ac wedi torri fy enw ar lyfr yr ymwelwyr yno, ysgrifennais hefyd yr englyn hwn:

*Hanes fu'n torri'u henwau, — nid ar fedd
Ond ar faen Porth Dagrau;
Os pallodd cur dy furiau,
Ieper a ddeil i'n pruddhau.*

Ni all ymwelydd â thref Ieper fyth anghofio ei fod mewn ardal lle bu rhai o frwydrau ffyrnigaf a mwyaf gwaedlyd y ddau ryfel. Ar wahân i'r Menenpoort, yno hefyd y mae Amgueddfa Ryfel yr Ypres Salient a'r Capel Coffa enwog hwnnw, Capel San Siôr, a adeiladwyd i gofio am yr aberth eithaf gan filwyr o Brydain a'r Gymanwlad. Mae digon i'w hatoffa, a heb sôn am y catrodau o feddau unffurf ym mynwentydd milwrol y fro.

Dyfynnaf y rhan olaf o soned gan filwr yn yr Ail Ryfel Byd, sef James Arnold Jones, a fu'n rhan o'r ymgyrch i ryddhau Gwlad Belg o



afael y Natsiaid yn 1944-45:

*Wrth gyrchu'n unig drwy Borth
Menin ddoe*

*Trois tua'r beddau. Yno, mewn
tristâd,*

*Roedd llanc o Gymro'n cipio awr o
hoe*

*Yn y distawrwydd hen wrth fedd ei
dad;*

*A chlywai'r gynnau'n tanio dan ei
sang*

*Dros ffosydd Ypres, Pilem a
Poperinghe.*

Mae cerddi'r beird o'r ddau ryfel yn llawn tosturi, ac meddai'r bardd Eingl-Gymrieg, Wilfred Owen, am farddoniaeth rhyfel:

*Above all I am not concerned with the
Poetry.*

*My subject is War, and the pity of
War.*

The Poetry is in the pity.

Canant hefyd am y gwastraff bywydau, a dyna yw bwrddwnglyn buddugol Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, 1992, i Wastraff gan fardd sy'n awr yn byw ym mro'r Eco, yng Nghaeathro, sef T. Arfon Williams:

GWASTRAFF

*Mae'r ifanc mawr eu hafiaith aeth
Gatráeth
un tro yn llawn gobaith?
Meirwon ýnt ac mae'r un waith
Yn drychineb drichanwaith.*

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: (01286) 870440

Camera yn ngofal John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

Llongyfarchiadau i Helen Mai Pritchard, Tŷ Isaf, ar ei dyweddïad â Bedwyr Jones o Ysbyty Ifan.

Arddangosfa: Cofiwch bod chwe llun gan y ffotograffydd David Kendall, Yr Hen Ysgol, yn cael eu harddangos yn Darganfod Dinorwig, Llanberis, tan ddiwedd mis Tachwedd. Mae'r lluniau hefyd ar werth.

Diolchgarwch: Cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch Capel Rehoboth ddydd Sul, Hydref 27, dan arweiniad y gweinidog. Cymerwyd rhan gan Hefin Pritchard, Dafydd Pritchard, Helen Mai Pritchard, Elfyn Williams ac Elwyn Searell Jones.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig: Byddwn yn casglu bocsus esgidiau wedi eu llenwi ag anrhegion Nadolig er budd yr elusen Ymgyrch Plentyn y Nadolig eleni eto. Cysylltwch â John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis (872390) am ragor o fanylion ac am sticer arbennig i'w roi ar y bocsus. Bydd angen £2 gyda phob boc at gost cludiant. Mae angen i'r bocsus fod yn barod erbyn Tachwedd 15.

★ Tacsí
★ Maes Awyr



Yfwch chi
Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444

**IEUAN
WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291



Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

**ERIC
JONES**
PENISARWAUN
PEINTIWR
AC ADDURNWR



Joban Dda
am Bris
Rhesymol

Ffôn: 872421

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Urdd Bentref: Bydd cyfarfodydd wythnosol yr Urdd yn aildddechrau nos Fawrth, 12 Tachwedd, yn y Neuadd Gymuned o 6 tan 7 o'r gloch. Tâl aelodaeth eleni yw £3.20. Bydd diod o oren a chreisi ar werth ymhob cyfarfod am 30c. Croeso cynnes i blant o flwyddyn 2 i fyny i ymaelodi.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Mary Davies a'r teulu ar golli chwaer a oedd yn byw yn Awstralia.

Diolchiadau:

Dymuna Pat Jones a Len Porter a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, yn gardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion ar farwolaeth Mrs Eluned Porter.

Dymuna Mary Davies ddiolch yn ddifffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ei phroffesiynol o golli ei chwaer, Helen Ireland, yn Awstralia.

Dymuna Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryntirion ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu penblwydd arbennig ar 3 Hydref.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant mis Medi, a'r enillwyr oedd: 1, Andrea Paterson; 2, V. G. Jones, Bryntirion; 3, Dafydd Williams, Meini Gleision, Brynrefail. Tynnir Clwb Cant mis Hydref yn 'Noson Hwyl Calangaeaf', a gynhelir nos Iau, 31 Hydref, yn y Neuadd Gymuned am 6.30 o'r gloch. Y beirniaid fydd John a Gwawr Morris, Brynrefail. Os dymuna unrhyw un archebu o'r catalogau Webb Ivory, cysyllter â Phyllis Elis ar 870237.

Ysgol Sul Bosra: Gan fod nifer o'r aelodau wedi bod yn sâl, a rhai wedi mynd ar eu gwyliau, cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch fore Sul, 27 Hydref, yn ystod sesiwn yr Ysgol Sul. Tesun y gwasanaeth oedd 'Hau yr Frad', ac fe fwyhaodd y plant gyfrannu at yr arddangosfa chwaethus o fara a gwenith a chanu heuwr a mawredd Duw. Mawr obeitir fod Yr Had, sef Gair Duw, yn cael ei hau yn yr Ysgol ac y bydd yr had hwnnw yn gwreiddio ac yn egino a dwyn ffrwyth fel dilynwyd ffyddlon i Grist.

Plygu'r Eco: Dymunir diolch i swyddogion Eglwys y Santes Helen

am gael defnyddio'r Neuadd i blygu'r rhifyn diwethaf a diolch unwaith eto i'r ffyddloniaid am ddod gan sicrhau inni orffen y plygu erbyn 7.30 p.m. Diolch o galon i chwi.

Yr Wyl Gerdd Dant: Dymunir pob llwyddiant i bawb o'r pentref fydd yn cystadlu a chefnogi'r Wyl, ddydd Sadwrn, 9 Tachwedd. Y mae angen stiwardiaid o hyd ar yr Wyl ac fe wyddom am rai o'r pentref sydd wedi cytuno i helpu. Os oes unrhyw un arall yn fodlon helpu yn y bore, pnawn neu'r nos, a fuasech garediced a chysylltu â Meirwen Lloyd, ffôn 675359. Diolch yn fawr am eich parodrwydd.

Priodas Ramantus: Ddydd Sadwrn, 12 Hydref, priodwyd Sioned (Tai Croesion) ac Endaf Jones yn y lle rhamantus hwnnw, Gretna Green. Dymuna Jean, Gwynfor, Siôn a Llion a'r teulu oll, ynghyd â'i ffrindiau llyma ym Mhenisarwaun, pob hapusrwydd a phob bendith iddynt ar eu priodas ac yn eu cartref yn Rhostryfan.

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Daeth sioe bypedau i'r ysgol yn ddiweddar i ddiddannu plant Bl. 6. Ffordd effeithiol iawn oedd y sioe i drosglwyddo neges bwysig iawn am beryglon cyffuriau. Enw'r sioe oedd, 'Paid Cyffwrdd. Dwêd "Na"', a dyna'r neges a drosglwyddwyd, sef cadw'n glir o gyffuriau o bob math onibai fod y meddyg yn dweud wrthym am eu cymryd. Rhan o'r thema'r plant am eu hunain ac Anne Frank oedd yr ymweliad gan y sioe bypedau. Cafwyd digon o hwyl yn y sioe, yn ogystal â'r neges bwysig i'w chadw ar gof am beryglon cyffuriau.

Fel rhan o'u thema hwy am 'Y Fro', aeth plant dosbarth Miss Jones am dro o amgylch y pentref yn ddiweddar yng nghwmni Mr Leslie Larsen, a adroddodd nifer o storïau wrthynt am yr ardal a'i chysylltiad gyda chwedl y ddraig goch a'r ddraig wen. Yn ffodus bu'r tywydd yn ffafriol yn ystod y daith, a diolchir i Mr Larsen am brynawn mor ddifyr.

I orsaf drydan niwclear yr Wylfa, Môn yr aeth dosbarth Miss Davies fel o'u thema hwy am 'Ynni'. Cafwyd diwrnod llawn a phrysur, yn ogystal â diddorol yn yr orsaf drydan. Diolchwn yn fawr i'r swyddogion am eu caredigrwydd ac am drefnu'r diwrnod ar ein rhan.

Estynnir croeso cynnes i Gorff

Llywodraethol newydd yr ysgol. Mae nifer o'r hen wynebau, megis, yn aros ymlaen fel aelodau o'r Corff newydd, a braf iawn fydd parhau i gydweithio â hwy ac elwa ar eu profiad. Croesawn Mrs Pat Larsen yn ôl i'n plith, ac estynnwn groeso o'r newydd i Mrs Alwena Leadbetter a Mrs Mair Hughes. Edrychir ymlaen i gydweithio â chwi oll er budd y plant am y bedair mlynedd nesaf.

Gair gan Gadeirydd Corff Llywodraethol yr Ysgol: Cafodd Ysgol Gymuned Penisarwaun ei harolygu yn ystod mis Mehefin eleni. Bellach mae'r Adroddiad wedi cael ei dosbarthu a chynhwysir sylwadau y Corff Llywodraethol isod:

'Fel Corff Llywodraethol rydym yn hynod falch fod yr Ysgol wedi derbyn Adroddiad mor ganmoladwy. Gwerthfawrogwn ymroddiad cwbl

broffesiynol y staff sydd wedi sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn cyflawni yn unol â'u potensial. Hyfryd oedd Cymreig yn cael eu gwerthoedd Cymreig yn cael eu harddel a bod ein penderfyniad fel Corff Llywodraethol i ddefnyddio cyllid i sicrhau cymhareb athrodisgybl ffafriol yn cael ei gymeradwyo.

Nodwyd fod yr Ysgol yn gweithredu fel ysgol gymuned a bod 'Cyfeillion' o'r gymuned honno yn cyfrannu yn sylweddol tuag at y ddarpariaeth mae'r ysgol yn medru ei gynnig. Ymhyfrydwn a diolchwn iddynt am eu cymorth parod.

Bydd yr Arolwg, ac yn sicr y sylwadau llafar a dderbyniwyd, yn ganllaw i'r staff i weithredu ymhellach arnynt er budd holl blant Penisarwaun.'

EIFION HARDING

Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Elfion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

Cerrig
Beddau

Glanhau y Garreg
ac
Ailbeintio
Llythrennau

Ffoniwch am bris
(01286) 830041

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **PROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ i chi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



SIOP GREFFTAU
A CHAFFI ANTUR
WAUNFAWR

Basgedi Blodau Sych ★ Siwti
Jams ★ Briwgig ★ Siampw
Clustogau ★ Ewyn Baddon
Olewon Aromatherapi

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren


Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. — 4 p.m.

Ffôn: (01286) 650721

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."

am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

LLWYDDIANT CERDDOROL



Yn dilyn eu llwyddiant mewn amrywiol arholiadau cerddorol, o dan nawdd Bwrdd Cyswllt yr Ysgolion Cerdd Brenhinol, a gynhaliwyd yn ddiweddar ym Mangor, cafodd nifer o blant y fro wahoddiad i gymryd rhan mewn cyngerdd arbennig yn Neuadd P.J., Prifysgol Bangor. Cafodd pob un ohonynt gyfle unigryw i berfformio o flaen cynulleidfia, ac efallai mai dyma'r tro cyntaf i rai ohonynt wneud hynny. Derbyniodd pob un fathodyn arbennig i gofio'r achlysur. Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Bethan Mackinnon, Llanrug; Ffion Williams, Bethel; Deian Parry Jones, Caeathro; Eurig Roberts, Llanrug. Rhes flaen: Siôn Emyr Wynne, Llanrug; Erin Eifion, Penisarwaun; Trystan Morris, Deiniolen ac Elfed Morgan Morris, Deiniolen.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Pen-blwydd: Anfonwn ein llongyfarchiadau arbennig i Miss Blodwen E. Owen, 2 Tai Orwig ar ddatlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Hydref 14eg.

Triniaeth: Dymunwn adferiad buan i Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog yn dilyn triniaeth i'w llygad yn Ysbyty Glan Clwyd, Llanellwyr.

Cymdeithas y Chwiorydd: Ymunodd rhai o'r brodyr ag aelodau'r Gymdeithas i'w cyfarfod olaf am y tymor 1996 yn y Festri, nos lau, Hydref 10fed. Mrs Verna Jones, Meillionen oedd yn gyfrifol am y myfyrdod a seliodd ei sylwadau ar Weddi'r Arglwydd. Roedd gweddill y noson yng ngofal y llywydd, Mrs Ifanwy Jones a Mrs Lowri P. Roberts Williams. Mwynhaodd pawb adroddiad amrywiol, cysylltiedig â thait Côr Meibion Dinas Bangor i Toronto y llynedd gan gynnwys ffilm

fideo o uchafbwyntiau yr ymweliad. Paratowyd y baned gan mrs Gwyneth Evans a Mrs Betty Owen. Talwyd gair o ddiolch gan Mrs Jennie Hughes.

Eglwys M.C. Brynrefail: Trefn yr oedfaon am fis Tachwedd —

3: GWASANAETH DIOLCHGARWCH (5.30)

10: Parchg W. R. Williams, Y Felinheli (5.30)

17: Parchg H. Gwynfa Roberts, Llanwnda (2.00)

24: Parchg Eric Jones, Penrhosgarnedd (5.30)

TAN Y COED


Anwen Parry, Ael y Bryn Ffôn: (01286) 872276

Dymuniadau Da i Siwan, Pant Bryngwyn, ym Mhrifysgol Caerdydd. **Llongyfarchiadau** i Ann a Colin Saynor ar enedigaeth eu hail blentynb, Tomos, brawd bach i Siôn. **Gwellhad Buan:** Dyna ddymunwn i Mrs Nancy Morris, Awelfryn, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno.

LLUNIAU RAS YR ANTUR



Enillwyr Ras Antur Waunfawr: Arwel Hughes (3); Tegid Roberts (1); Anthony Woodall (2).



Ian Rees ac Elin Harding a fu'n cystadlu yn y ras hwyl.




Helen Pendly (2) a Jayne Lloyd (1) yn ras y merched.



Tim yr Antur a enillodd Cwpan B. & K. Williams.

CROESAIR TACHWEDD



AR DRAWS

1. Ffrae (4)
3. Un rhan o dair (6)
6. Dewi a Siôr i enwi dim ond dau (4)
10. Diddanwyr (8)
11. Trawiad llygad (9)
12. Mymryn is-atomig ar ôl i oren Celt ffrwydro (8)
13. Rwyd ti yn adnabod (7)
14. y llyfrgell (8)
16. Un â llythrennau ar ôl ei enw (8)
23. Rhai sy'n gofyn am newid dedfryd (7)
24. Dacw fryn, gall fod yn ffrwythlon! (8)
25. Un sy'n cystadlu. Bardd? (9)
26. Roedd Leonardo a Michelangelo yn rhai enwog (8)
27. Un sy'n gofalu am blant neu gleifion (4)
28. Pethau â blas drwg arnynt (6)
29. Dilledyn (4)

I LAWR

1. Cytuno (8)
2. Un sy'n llenwi angen (8)
3. Darn bach o'r ddaear ynghyd â'r gwellt a dyf arno (8)
4. Weithian (5)
5. Barmouth y Cymro (7)
7. Newid lliw (7)
8. Â golwg anghenus arno (7)
9. Merchedaidd (8)
15. Ond fe all fod yn gapelwrl (8)
17. Symbol, mae gwisg llun ar arwyddbost ysgol (8)
18. Rhai sy'n gwawdio (8)
19. Yr hyn fydd rhywun yn gofyn amdano pan fydd eisau sgwrs fer (4,4)
20. Pentref rhwng Abergynolwyn a Minffordd ag iddo ei reilffordd (3,1,3)
21. Rhai sy'n gweithio â chwyn anifeiliaid (7)
22. Dim weith yn fynyddoedd (7)
24. Gwyrni (5)

Cefnogwch ein Hysbysebwr

ATEBION CROESAIR HYDREF

Derbyniwyd un ar bymtheg o atebion cywir i groesair mis Hydref ynddi. Y rhai sy'n gwbl gywir yw Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys; Ceridwen Williams, Llanrug; Catherine A. Jones, Rhiw; N. Hughes, Cwm-y-glo; Mary Davies, Waunfawr; Nansi Davies, Rhuthun; E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; E. E. Jones, Rhoshirwaun; G. Gill, Bangor; Ceinwen Williams, Bethel; Mair Foulkes, Penisarwaun; Mabel Parry, Porthmadog; Beryl Jones, Garndolbenmaen; Joan Hughes-Jones, Rhiw; Elfed Evans, Llanllechid ac Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon.

Er mwyn dewis enillydd, gofynnwyd i chi lunio cliw cryptig i'r 'TERM A DDEFNYDDIR I DDISGRIFIO RHAI MEGIS ...', felly mae'r rhai sy'n defnyddio ANIFEILIAID ANWES fel rhan o'r cliw, neu'n cyfeirio at ddim

ond un o'r chwe anifail yn rhoi eu hunain allan o ystyriaeth yn syth; felly hefyd y rhai sydd wedi lunio chwe cliw, un i bob un o'r anifeiliaid.

O'r gweddill, aeth nifer ar drywydd y gair Saesneg **PETS**, eraill i sôn am arch Noa, ac eraill eto yn **COFLEIDIO**, **MWYTHAU**, **FFRINDIAU**, etc.

Rwy'n hoffi ymgais Ceridwen Williams, Llanrug: **DRWS CERIDWEN UN I 'CAFFI CEI' CEIR BWYD I'R CHWECH YMA** — gorblwyfol braidd, mae'n debyg. Mae hyn yn gadael ymgeision Dilys A. Pritchard-Jones: **STEP Y SAIS YN TROI'N SWCI A SŴ BRITH I'N TEULU NI** a Mary Davies, Waunfawr: **GWELWYD RHAI YN HEIGIO AC EHEDEG AR DDYDD GWENER, OND NI DDAETH Y GWEDDILL, MY NA NINNAU, I'R FEI HYD Y SADWRN** (sy'n cyfeirio, wrth gwrs, at yr adnodau yn Genesis sy'n ymwneud â chreu'r byd a phopeth ynddo). Mae'r ddau yn wych. Ond am y rheswyr syml mai Dilys sydd wedi ennill amlaf dros y blynyddoedd fe aiff gwobr y mis hwn i Mrs Mary Davies, Bryn Eithin, Waunfawr.

Rwyf wedi derbyn ambell gŵyn yn ddiweddar gan rai sy'n honni fod y croesair yn rhy anodd, ac eraill na allant lunio cliwiau cryptig. Felly, dyma ymgais y mis yma i lunio cliwiau sydd ychydig yn haws, a daw'r enillydd o'r het fydd yn dal enwau pawb fydd wedi ei gwblhau'n gywir a'i yrru at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 22 Tachwedd.



DYDDIADUR MIS TACHWEDD

4. Lluon **CWM-Y-GLO:** Undeb y Mamau yn Hafan Elan.
5. Mawrth **LLANBERIS:** Jerwsalem — Y Gyfeillach am 2 o'r gloch. Y Gymdeithas Lenyddol Undebol yn Capel Coch am 7. **PENISARWAUN:** Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn y Ganolfan Gymdeithasol am 7.
6. Mercher **BETHEL:** Eisteddfod Bentref. Pwyllgor y Neuadd am 7.30.
7. Iau **DEINIOLEN:** Cymdeithas Chwiorydd Cefnywaun ac Ebeneser. Yn Ebeneser am 2. **DINORWIG:** Y Gymdeithas Undebol. **BETHEL:** Cymdeithas Rieni ac Athrawon — Bingo yn yr Ysgol am 6.30.
11. Lluon **WAUNFAWR:** Y Gymdeithas Lenyddol. **DEINIOLEN:** Cyfarfod y Cyngor Eglwysig.
12. Mawrth **PENISARWAUN:** Adran yr Urdd yn y Neuadd am 6. **LLANRUG:** Merched y Wawr: Paratodau'r Nadolig.
13. Mercher **BETHEL:** Merched y Wawr: Arddangosfa Eisin Siwgr.
15. Gwener **BETHEL:** Eisteddfod Bentref: Dawnsio Disgo am 6.30.
18. Lluon **DEINIOLEN:** Merched y Wawr: Ymweliad â Sioe Fferm Cae Coch, Llanberis.
21. Iau **DINORWIG:** Y Gymdeithas Undebol.
22. Gwener **LLANBERIS:** Cyngerdd yng Ngwesty Dolbadarn gyda Meibion Prysor.
25. Lluon **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol yn y Caban am 7.

RHODDION

£20: Cwmni Rheilffordd y Wyddfa.

£10: Er Cof am Hughie T. Jones, Deiniolen gan ei deulu.

£5: Goronwy Lewis, 13 Stryd Ceunant, Llanberis; Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion, Penisarwaun; Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Gracie Roberts, Waterfall View, Llanberis; M. Griffiths, 2 Bryn Teg, Llanberis; Nerys Owen, Wernlas, Bethel; Mr R. Lewis, 4 Rhes y Faenol, Deiniolen.

£3: Mrs E. Jones, Lyndale, Llanrug; Delys ac Arfon Phillips, Coed y Glyn, Llanberis; Rhian

W. Morris, Deganwy.

£2: Mrs Ceridwen Williams, Hafan Elan, Llanrug; Mrs Hurwen Roberts, Deiniolen; Gillian Asodia, Llandrillo-yn-rhos.

CHWILIO AM GARTREF?

Rwy'n chwilio am un person i rannu tŷ cyfleus yng nghanol Llanrug. Rhent £125 y mis.

Ffôn: (01286) 678020 ar ôl 5 o'r gloch y nos (neu gedwch neges)

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribio a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron



Aelod o'r

11 Rhes Faenol
LLANBERIS

Ffôn: (01286) 871680

Gŵyl Gerdd Dant
Caernarfon a'r Cylch 1996

Mynediad Am Ddim

a chystadleuaeth Baled

8ed o Dachwedd
1996

Clwb Tanybont
Caernarfon

am

8:00 o'r gloch
Drysau'n cau am 9:30

Tecynnau
£4.00

au gael o Slop y Pentan, Caernarfon
neu gan Sian ar: (01248) 671430
Mae'r Wyl Gerdd Dant yn Eleni Gofusneidig.

CHWARAEON

CAP ARALL I'R ARDAL



Braf yw llongyfarch Iona Williams o Lanrug ar ennill cap pêl-droed Cymru. Roedd Iona yn chwarae i'r tîm merched o dan 16 oed yn erbyn yr Alban. Chwaraewyd y gêm ar faes Queen of the South ger Dumfries. Cafodd ei phlesio gyda'i pherfformiad ond nid â'r canlyniad gan i'r Albaniaid ennill o 3-0. Barn Iona oedd fod y tîm cartref yn gryfach yn gorfforol a'u bod hefyd yn chwarae mewn safon uwch ar lefel clwb.

Mae Iona yn aelod o Glwb Dinas Bangor ac roedd dwy arall o'r Clwb hwnnw, sef Joanne Roberts a Cheryl Foster, hefyd yn y tîm. Yng nghanol cae y mae Iona yn chwarae i Fangor, ond i'r tîm cenedlaethol *right wing back*. I chi, fel minnau, sy'n cofio pêl-droed yn gêm syml mai cefnwr de sy'n gallu ymosod a chroesi pêl ydi hynny.

Mae Bangor yn cael tymor da hyd yn hyn ac maent ar frig adran gyntaf cynghrair gogledd-orllewin Lloegr. Os byddant yn cael dyrchafiad yna fe fyddant yn chwarae yn yr uwch-gynghrair sy'n safon uchel iawn. Gyda llaw, yn ddiweddar mae tîm Bangor wedi curo ManU a Man City; ond, wedyn, mae pawb yn curo y rheini! ManU ydi hoff dîm Iona, a'i hoff chwaraewr yw Eric Cantona.

Mae Cymdeithas Pêl-droed Ysgolion Cymru wedi cymryd camau pwysig eleni. Mae yna gystadleuaeth genedlaethol i ferched o dan 14 oed eleni ac fe fydd hyn o fantais i'r merched lleol sy'n chwarae i dimau o dan 11 ar hyn o bryd ac yna ddim yn cael chwarae yn eu timau lleol ar foreau Sadwrn. Felly, Ysgol Brynrefail, beth am hel tîm y flwyddyn nesaf?

Roedd un peth calonogol iawn ynglŷn â'r daith i'r Alban: oherwydd cytuned y Welsh FA â chwmni Lotto o'r Eidal, nid oedd angen i aelodau'r tîm gasglu arian neu noddwyr fel yn y tymhorau blaenorol.

Rhaid rŵan i Iona, a'r teulu, gnoi ewinedd i weld os caiff hi ennill ei hail gap yn Nulyn ar 24 Tachwedd. Dymunwn y gorau iddi.

LLUNIAU RAS YR ANTUR AR DUDALEN 18

Pigion o Lanberis

Mae 'na nifer o gêmiau pêl-droed Llanberis wedi bod yn gêmiau cwpan, a rheini yn llwyddiannus. Maent yn sgorio yn rheolaidd hefyd. A welir Cwpan Barritt yn ôl yn Ffordd Padarn? A beth am y gynghrair? Nid ydynt wedi colli eto ac maent yn ail yn y tabl. Yn sicr, mae eisiau un tîm llwyddiannus yn y fro — yn hen grud y bêl-droed.

Criw diymffrost, tawel yw rhedwyr y fro. Braf cyhoeddi felly fod Aled Vaughan wedi ail-gipio pencampwriaeth rhedeg mynydd Prydain i redwyr o dan 18 oed. yr oed ei rediad wych yn elfen hanfodol i Gymru ennill pencampwriaeth y tîm.

Bu seremoni bwysig ar lan Llyn Padarn yn ddiweddar. Derbyniodd y Gymdeithas Bysgota leol £37,000 gan Sportslot. Bydd hyn yn galluogi'r Gymdeithas i gyflwyno cyfleusterau a lleoliadau gwell i'w haelodau. Bydd yr anabl hefyd yn cael hwb sylweddol. Wedi'r treialon i'r anabl a gynhaliwyd yn ddiweddar cânt eu croesawu'n ôl ymhen dwy flynedd. Mae'n braf croniclo datblygiad mewn clwb lleol — un nad yw'n sefyll yn ei unfan.

Ras Antur Waunfawr

Cynhaliwyd 11fed Ras Antur Waunfawr brynhawn Sadwrn, Medi 28. Enillydd y ras (am yr wythfed tro yn hanes y ras) oedd Tegid Roberts (Eryri) mewn 37 munud a 34 eiliad. Yn ail agos roedd Antony Wiidall (Eryri) 37.46; ac yn drydydd Arwel Hughes (Eryri) 38.01.

Enillydd y ras i rai dros 40 oed oedd Eric Ranicar (Bolton Harriers), 38.38; gyda Dafydd Whiteside (Eryri) yn ail, 41.02; a Mike Blake (Eryri) yn drydydd, 43.30.

Y cyntaf dros 50 oed oedd David Blake, Rhosneigr, 57.57; ac enillydd dros 60 oed oedd R. T. Jones (Eryri) 57.13.

Dim ond dwy ferch a fu'n cystadlu eleni gyda Jayne Lloyd (Eryri) yn gyntaf mewn 43.30 a Helen Pendley (Eryri) mewn 50.48.

Eleni eto aeth Cwpan B & K Williams, Llanrug, i Dîm Antur Waunfawr.

Yn y Ras Hwyl y cyntaf oedd Ian Roberts, Waunfawr, 14.07; a'r ferch gyntaf oedd Elin Harding (Eryri), 15.30.

Hoffai'r Antur ddiolch i'r holl gwmnïau a noddodd y tlysau.

LLANBERIS **12** : LLANRUG **0**
PRESTATYN **8** : DEINIOLEN **1**
NEWCASTLE **5** : MAN.Utd **0**

'Funny ol' gamel'

HANNER TYMOR O'R YSGOL



Bu'n ddechrau prysur i'r flwyddyn chwaraeon yn Ysgol Brynrefail. Mae'r timau — 12, — 14 a — 16 wedi chwarae wyth gêm hyd yn hyn yn erbyn Dyffryn Ogwen, Syr Huw Owen, ac Ysgol Eifionydd. Wedi'r wyth gêm mae'r timau heb golli yr un gêm. Yn y gêmiau Cwpan Cymru mae'r timau — 12, — 16 a — 18 drwodd i'r ail rownd. Yn yr wyth gêm mae'r ysgol wedi sgorio 26 o goliau gan ildio pum gôl. O gofio mai cefnwr oedd Phil Holland mae'n amlwg fod yr amddiffynwyr wedi elwa ar ei brofiad. Mae treialon Gwynedd hefyd wedi eu cynnal a bydd cynrychiolaeth dda o'r ysgol yn y gwahanol garfannau:

- 13: Owain Williams, Alister Addiston.
- 14: Mark Williams, Gareth W. Jones, Geraint Owen.
- 15: Lee Hughes, Martin Willis, Rory O'Donnell.
- 18: Eifion Jones.

Bu'r genethod hefyd yn brysur a

llwyddiannus ar y maes hoci a'r cwrt pêl-rwyd. Yn amlwg mae'r cae-pobtywydd ym Mrynrefail, Pen-y-groes a Bethesda yn gaffaeliad mawr. Ni cheir mwyach gêmiau o sgoriau isel neu ddi-sgôr wedi'r 'slog' ddiabwrpas ar y caeau mwd. Fel y bechgyn bydd criw da o'r ysgol yng ngharfannau hoci Gwynedd:

- 16: Llinos Williams, Llinos Roberts, Iona Williams, Nia W. Jones.
- 18: Rhian Green, Catrin Jones.

Byddant rŵan yn mynd ymlaen i dreialon hoci Eryri (yr hen Wynedd).

Bydd Elen Robinson yn falch o'i dewis i dîm pêl-rwyd Gwynedd.

Daeth dau o nofwyr o garfan Olympaidd Prydain i'r ardal yn ddiweddar i gynnal gweithdy diwrnod. Noddwyd y diwrnod gan 'Uncle Ben's Rice', a chafodd 45 o ddisgyblion yr ysgol flas ar y diwrnod. Am eu hymdrechion cawsant i gyd dystysgrif, cap nofio a medal.

180! — gobeithio



Anaml iawn y cawn ni gyfle i sôn am unigolyn o fro'r Eco sy'n ceisio cyrraedd Pencampwriaeth y Byd. Dyna fydd nod dau o chwaraewyr dartiau ifanc yn ystod y penwythnos yma. Mae Irfon Hughes, Cae Rhos, Bethel, a Lucy Skilki, Gwesty Llyn Padarn, Llanberis, yn cymryd y camau anodd cyntaf. Mae'r ddau wedi'u dewis gan Gymdeithas Dartiau Gwynedd i gymryd rhan ym mhencampwriaeth dartiau o dan 18 oed Cymru, a gynhelir yng Nghlyn

Ebwy. Mae'r gystadleuaeth yn agored i fechgyn a merched a bydd 73 o wahanol ardaloedd o Gymru yn ymgiprys am y ddau le yn nhîm Cymru am gystadleuaeth Cwpan y Byd a gynhelir yn Llundain ddechrau mis Rhagfyr.

Bydd y gystadleuaeth arr ffurf 'knock-out'. Bydd pob gêm y cyntaf i 501, a'r enillydd fydd y gorau o bum gêm.

Mae'r ddau eisoes yn chwarae yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch. Mae Irfon yn chwarae i dîm 'A' Gors Bach, a Lucy i dîm Gwesty Llyn Padarn — y ddau yn yr ail adran. Mae'n amlwg fod dartiau'n boblogaidd yn Nghae Rhos gan fod Arfon, y tad, ac Iwan y brawd hefyd yn chwarae i Gors Bach. Yn wir, tim yr Huwsiaid ydi tîm y Gors gan fod wyth allan 10 aelod gyda'r un cyfenw! Hyd yma mae Irfon wedi chwarae wyth gêm yn y gynghrair gan ennill 6. Yng ngêmiau 601 y gynghrair partner Irfon yw ei frawd Iwan. Yr un record - chwech allan o wyth - sydd ganddynt. Mae Lucy hefyd yn cael tymor boddhaol gyda thîm Gwesty Llyn Padarn. Dymuniadau gorau i'r ddau yn y gystadleuaeth.